



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad y Prif Economegydd a Disgwyliadau Cyllidol

Jonathan Price, Prif Economegydd,
Llywodraeth Cymru

llyw.cymru

Crynodeb

Pwrpas a chyd-destun

- Mae'r adroddiad hwn yn adolygu datblygiadau economaidd diweddar a'r rhagolygon economaidd a chyllidol sy'n wynebu Cymru. Nid yw'n cyflwyno polisiau Llywodraeth Cymru.

Amodau economaidd ar hyn o bryd a'r rhagolygon dros y tymor byr

- Mae Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU, a thros y tymor byr mae canlyniadau yng Nghymru yn cael eu sbarduno'n bennaf gan ffactorau sy'n gyffredin i'r DU yn ei chyfanrwydd.
- Mae chwyddiant uchel a pharhaus wedi erydu safonau byw, gyda phrisiau ynni a bwyd uchel yn effeithio'n anghymesur ar bobl ar incwm isel a grwpiau difreintiedig eraill.
- Erbyn trydydd chwarter 2023, nid oedd cynnyrch domestig gros (GDP) y pen yn y DU wedi rhagori dim bron ar y lefel cyn y pandemig, ac roedd incwm aelwydydd yn dal yn is na'r lefel honno – pedair blynedd o dwf wedi'i golli.
- Mae hyn yn dwysáu cyfnod hir o berfformiad gwael i economi'r DU, yn ymestyn yn ôl i tuag adeg yr argyfwng ariannol.
- Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod yr economi yng Nghymru wedi dilyn yr un trywydd yn y bôn.
- Mae data diweddar yn dangos bod y farchnad lafur yng Nghymru a'r DU wedi gwanhau erbyn hyn, gyda chynnydd mewn anweithgarwch oherwydd salwch. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae'r farchnad lafur yng Nghymru yn parhau i berfformio'n well nag yr oedd yn y 1990au, cyn datganoli.
- O 2023 ymlaen, mae dwysedd masnachu'r DU yn dal yn 1.7 y cant yn is na'i lefel yn 2019, o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 1.9 y cant ar draws economiau eraill G7, ac mae'r duedd ym mherfformiad allforio Cymru ers tuag adeg y refferendwm wedi bod yn debyg iawn i'r duedd ar gyfer y DU gyfan.
- Er bod chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn disgwyl i chwyddiant aros yn uchel am fwy o amser na'r disgwyl. Mae'r OBR hefyd yn disgwyl i dwf aros yn araf ac i ddiweithdra gynyddu, er ar lefel gymharol fach. Mae twf isel, chwyddiant uchel a chynnydd mewn trethi gyda'i gilydd yn lleihau safonau byw. Rhagwelir y bydd gwir incwm gwario aelwydydd (RHDI) y pen 3.5 y cant yn is yn 2024-25 na'i lefel cyn y pandemig. Dyma'r gostyngiad mwyaf mewn safonau byw go iawn ers i gofnodion y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ddechrau yn y 1950au.
- Mae rhagolygon yr OBR ar gyfer y DU yn berthnasol fwy neu lai i Gymru. Gan fod y data diweddaraf yn awgrymu bod incwm wedi gostwng ychydig yn llai yng Nghymru yn y blynyddoedd yn dilyn effaith gychwynnol y pandemig (sydd, yn ôl pob tebyg, yn adlewyrchu mesurau cymorth y Llywodraeth), efallai y bydd incymau yng Nghymru yn adfer i lefelau cyn y pandemig flwyddyn yn gynharach nag yn y DU, yn 2025-26. Serch hynny, byddai hyn yn cynrychioli saith mlynedd o golli twf mewn incwm na welwyd ei debyg o'r blaen.

Heriau a chyfleoedd economaidd dros y tymor hwy

- Nid yw'r heriau a'r cyfleoedd economaidd dros y tymor hwy yng Nghymru wedi newid rhyw lawer o'i gymharu ag Adroddiadau blaenorol y Prif Economegydd, ond maen nhw wedi cael eu dwysáu gan yr argyfwng costau byw a'r pandemig.
- Un o'r prif heriau hirdymor o hyd yw cynhyrchiant cymharol isel, prif sbardun hirdymor unrhyw gynnydd cynaliadwy mewn cyflog, ffyniant, a'r sylfaen drethu.
- Mae heriau'n dal yn bodoli yn y farchnad lafur hefyd: mae cyfleoedd cyflogaeth yn gyfyngedig i lawer o grwpiau sydd dan anfantais, yn enwedig pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, a phobl â lefelau sgiliau isel.
- Mae swyddi newydd wedi cael eu dosbarthu'n anghyson ar draws Cymru.
- Mae'r cynnydd cyflym mewn gweithio o bell yn her ac yn gyfle newydd.
- Mae poblogaeth Cymru wedi bod yn tyfu'n arafach na phob un o ranbarthau Lloegr. Mae nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau dros y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad yn bennaf i gyfradd ffrwythlondeb isel, ond mae mewnfudo wedi atal y boblogaeth gyffredinol rhag dirywio.
- Mae'r newid mewn poblogaeth yn amrywio dros Gymru, gyda nifer o ardaloedd awdurdod lleol yn gweld gostyngiad mewn poblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.
- Mae newidiadau mewn demograffeg yn creu nifer o heriau i Gymru ond rhai cyfleoedd hefyd.

Rhagolygon cyllidol

- Mae'r OBR wedi nodi bod sefyllfa ariannol y DU wedi gwella ers y rhagolwg blaenorol ym mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae'r gwelliant hwn wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan chwyddiant uwch na'r disgwyl sy'n rhoi hwb i refeniw trethi.
- Mae'r refeniw trethi ychwanegol hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU i ariannu toriadau trethi. Nid oes cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i ystyried effaith chwyddiant uwch ar gost darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn y tymor hwy, mae gwerth y gostyngiadau newydd mewn trethi bron yr un fath â'r pwysau ychwanegol heb ei ariannu sydd ar wasanaethau cyhoeddus a ddaw yn sgil chwyddiant.
- Y tu hwnt i gyfnod presennol yr adolygiad o wariant, rhagwelir mai dim ond ychydig bach y bydd gwariant o ddydd i ddydd yn cynyddu mewn termau real, ac y bydd gwariant cyfalaf yn sefydlog o ran arian parod. Mae hyn yn wasgfa ddifrifol barhaus ar wariant cyhoeddus, gyda gostyngiad mawr o ran termau real mewn buddsoddiad cyhoeddus. Mae'r OBR yn nodi bod y gostyngiad o ran termau real mewn buddsoddiad cyhoeddus yn llawer mwy na'r cynnydd

mewn buddsoddiad sector preifat y mae'n disgwyl iddo ddeillio o wneud y broses "gosod fel treuliau llawn" yn barhaol.¹

- Hyd yn oed ar y sail hon, dim ond oherwydd bod yr OBR yn tybio y bydd Llywodraeth y DU yn ailddechrau cynyddu'r dreth ar danwydd yn unol â chwyddiant (ac yn cael gwared â'r gostyngiad dros dro) y bydd Llywodraeth y DU yn bodloni ei rheol gyllidol sylfaenol.
- Mae'r OBR o'r farn hefyd nad yw sefyllfa ariannol y DU yn gynaliadwy dros y tymor hwy. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf yr effeithiau o fod â phoblogaeth sy'n heneiddio, sy'n cael ei ddwysáu gan effaith cyfraddau llog uwch ar gost dyled llywodraeth.
- Mae'r OBR hefyd yn nodi bod pwysau ychwanegol sy'n deillio o fygythiadau cynyddol i ddiogelwch byd-eang a'r costau i'r sector cyhoeddus yn sgil y newid i sero net ac addasu i hinsawdd sy'n newid. Mae rhagor o bwysau a risgiau'n gysylltiedig ag iechyd gwael, anweithgarwch, a cholli refeniw o'r dreth tanwydd heb ddim byd arall yn ei le wrth i'r DU newid i sero net.
- Mae Cymru'n wynebu pwysau tebyg i Loegr o ran demograffeg dros y blynyddoedd nesaf. O ran a fydd adnoddau ar gael i gwrdd â'r pwysau hwnnw yng Nghymru, bydd hynny'n dibynnu'n helaeth ar Lywodraeth y DU yn eu hariannu'n briodol yn Lloegr.
- Mae disgwyl i'r trethi datganoledig barhau i wneud cyfraniad cadarnhaol i gyllid Llywodraeth Cymru.
- Mae'r bwllch mawr rhwng cyfanswm refeniw a gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru yn golygu trosglwyddiad mawr i bobl Cymru drwy system gyllidol y DU.
- Y trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwllch rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru, ac mae'n golygu bod dewisiadau polisi posibl Llywodraeth y DU yn risg allweddol i safonau byw yng Nghymru.
- Mae dadansoddiad mwy diweddar yn dangos bod gwariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn dal yn gyffredinol raddol ar draws y dosbarthiad incwm.

¹Ystyr "gosod fel treuliau llawn" yw didynnu costau buddsoddi cyn pennu atebolrwydd am dreth gorfforaeth.

Pwrpas a chyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu tueddiadau economaidd ac yn asesu'r rhagolygon cyllidol ac economaidd. Nid yw'n cyflwyno polisiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad sy'n adlewyrchu ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ymestyn y sylfaen dystiolaeth ar ragolygon cyllidol Cymru ac i adolygu opsiynau ar gyfer datblygu sylfaen drethu Cymru. Bydd rhagor o ddadansoddiadau'n cael eu gwneud i ystyried goblygiadau cyllidol unrhyw argymhellion gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Bydd canlyniadau dadansoddiad o'r math yn cael ei adlewyrchu mewn fersiynau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol.

Eto eleni, mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu mewn cyfnod o ansicrwydd mawr oherwydd nad ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd o ran chwyddiant yn y dyfodol ac oherwydd y cyd-destun gwleidyddol yn fyd-eang sy'n esblygu.

Cafodd rhagolygon diweddaraf yr OBR a Datganiad yr hydref Llywodraeth y DU eu cyhoeddi ar 22 Tachwedd.

Er yr ansicrwydd anochel, mae rhagolygon yr OBR a chynlluniau cyllidol Llywodraeth y DU yn darparu cyd-destun hollbwysig ar gyfer asesu rhagolygon economaidd a chyllidol Cymru.

Mae nifer o ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu orau dros y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r adroddiad hwn felly'n adolygu heriau a thueddiadau tymor hwy a oedd yn bodoli cyn yr argyfwng sydd ohoni ac a fydd yn parhau ar ei ôl.

O ganlyniad i'r pandemig, amharwyd ar y gwaith o gasglu data ar gyfer arolygon ystadegol ac mewn rhai achosion mae'r ystadegau canlyniadol yn annibynadwy, neu nid ydynt ar gael, neu nid ydynt yn adlewyrchu tueddiadau tymor hwy. Oherwydd hyn, efallai na fydd y data yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyfnodau mwyaf diweddar bob amser.

Datblygiadau economaidd diweddar

Mae economi Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU. O ganlyniad, mae datblygiadau ledled y DU – a thu hwnt – yn dylanwadu'n fawr ar berfformiad tymor byr economi Cymru.


Mae'r economi wedi wynebu cyfnod anarferol o gythryblus dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cythrwfl hwn wedi adlewyrchu ffactorau aneconomaidd yn bennaf: y refferendwm ar adael yr UE, y pandemig, ac yn ddiweddarach yr argyfwng costau byw, yn rhannol o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin.

Yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, mae'r cyfuniad o dwf economaidd araf iawn a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith fawr niweidiol ar safonau byw yng Nghymru.

Cynnyrch domestig gros (GDP), chwyddiant a safonau byw

Mae Siart 1 yn dangos tueddiadau diweddar mewn gwir GDP y DU a gwir incwm gwario aelwydydd y pen yn y DU. Mae'r data ar gyfer cyfanswm GDP a GDP y pen ar gael hyd at drydydd chwarter 2022, gyda data ar gyfer incwm aelwydydd ar gael hyd at yr ail chwarter yn unig.

Siart 1: GDP y DU, GDP y pen ac incwm gwario y pen, termau real (2019 =100)




Ffynhonnell: SYG

Mae'r siart yn dangos bod cyfanswm GDP y DU wedi rhagori ar lefelau cyn Covid erbyn trydydd chwarter 2023, ond pan roedd hyn yn cael ei fynegi fesul pen, roedd y twf yn fach iawn – felly, i bob pwrpas, mae pedair blynedd o dwf wedi cael ei golli.

Gan edrych ar bersbectif tymor hwy, mae twf y DU wedi bod yn ddi-nod ers tuag adeg yr argyfwng ariannol. Dros y cyfnod ers dechrau'r broses adfer o'r argyfwng hwnnw, fesul pen o'r boblogaeth, mae twf y DU wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y G7, ac ers y refferendwm ar adael yr UE, mae'r DU wedi cael y twf isaf yn y G7 (gweler Siart 2). Mae'r twf cyfartalog blynyddol dros y cyfnod cyfan wedi bod oddeutu un y cant, ond mae hyn yn ymddangos yn well nag ydyw oherwydd yr adferiad mewn lefelau cyflogaeth yn ystod blynyddoedd cynnar y broses adfer ar ôl y pandemig. Mae twf cynhyrchiant sylfaenol wedi bod hyd yn oed yn fwy anemig.

Siart 2: Twf GDP y pen, gwledydd G7



Ffynhonnell: OECD.

Yn ystod 2023, gohiriodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y gwaith o gynhyrchu amcangyfrifon GDP chwarterol ar gyfer Cymru oherwydd lefel y diwygiadau a diffyg hyder yn eu dibynadwyedd. Fodd bynnag, mae'r OBR wedi cydnabod, yn y blynyddoedd diwethaf, na ellir gwahaniaethu rhwng y duedd tymor byr i ganolig yn y GDP yng Nghymru ag un y DU, pan gaiff ei fynegi "fesul pen o'r boblogaeth" – ond mae rhywfaint o amrywiadau ar hap.

Mae'r chwyddiant uchel yn sgil prisiau defnyddwyr dros y ddwy flynedd diwethaf wedi dwysáu effeithiau twf araf ac wedi erydu safonau byw i'r fath raddau bod incwm cyfartalog ar draws y DU, erbyn ail chwarter 2023, yn dal yn is na'r lefelau cyn Covid.

Wrth gwrs, mae chwyddiant uchel wedi cael effaith fawr niweidiol ar safonau byw yng Nghymru. Mae prisiau'r hanfodion wedi codi'n sylweddol. O'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig, mae prisiau bwyd wedi codi bron i 30 y cant ac mae prisiau ynni wedi codi 8 y cant. Mae prisiau uwch bwyd ac ynni yn effeithio'n arw iawn ar aelwydydd tlotach. O'i gymharu â chyfartaledd y DU, mae gan Gymru, wrth gwrs, gyfran gymharol uchel o aelwydydd incwm isel.

Cododd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr uwchlaw targed Banc Lloegr o ddau y cant yng nghanol 2021. Wedyn, cynyddodd yn sydyn i gyrraedd uchafbwynt o 11.1 y cant ym mis Hydref 2022. Yn dilyn yr uchafbwynt hwn, mae chwyddiant wedi gostwng, ond mae'r ffigur diweddaraf (Hydref) o 4.6 y cant yn dal yn uwch o lawer na'r targed. Mae'r gostyngiad mewn chwyddiant wedi'i briodoli i raddau helaeth i gyfraniad lleihaol o ganlyniad i brisiau bwyd, sydd wedi gostwng o lefelau uchel yn gynharach yn y flwyddyn, ac o ganlyniad i filiau trydan a nwy, sydd wedi sefydlogi ar lefel o dan y pris uchaf ond sydd ar lefel uchel yn hanesyddol.

Mae chwyddiant wedi bod yn uwch, ac yn fwy parhaus, yn y DU nag yn y rhan fwyaf o economïau mawr eraill.

Yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd, roedd Banc Lloegr yn disgwyl i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr ostwng yn sylweddol yn y dyfodol agos, gan adlewyrchu chwyddiant ynni blynyddol is a gostyngiadau pellach mewn chwyddiant prisiau bwyd a nwyddau craidd. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd chwyddiant prisiau gwasanaethau yn parhau i fod yn uwch yn y dyfodol agos, gyda rhywfaint o anwadalarwydd posibl o fis i fis. Nid oes disgwyl i chwyddiant cyffredinol ddychwelyd i'r targed tan 2025.

Mae enillion wedi cynyddu mewn termau nominal yn fwy na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol gan yr OBR a Banc Lloegr. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn llafurddwys iawn, felly chwyddiant cyflogau yw'r prif ffactor sy'n sbarduno costau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Gan adlewyrchu'r cynnydd uwch na'r disgwyl mewn enillion nominal, mae data diweddar yn dangos bod enillion economi gyfan wedi cynyddu'n gymedrol mewn termau real, ond mae hyn yn dilyn cyfnod o ddirywiad. Roedd y pwysau ar gyflogau gwirioneddol yn dilyn cyfnod hir lle mae twf mewn cyflogau go iawn wedi bod yn eithriadol o wan. Dywedodd Paul Johnson o'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ddiweddar: *Mae'r enillion wythnosol cyfartalog gwirioneddol [DU] yn [debyg] heddiw [i] fis Tachwedd 2005. Cyfnod nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen heb unrhyw dwf mewn enillion... [mae'n] debyg nad yw hyn wedi digwydd dros unrhyw gyfnod tebyg ers rhyfeloedd Napoleon.*

Ym mis Medi 2023, roedd y Resolution Foundation wedi rhagweld, yn dilyn gostyngiad mewn incwm gwirioneddol yn 2022-23, bod disgwyl i incwm gwirioneddol aros yr un fath yn 2023-24. Byddai hyn yn golygu y bydd incwm gwirioneddol wedi gostwng tua 4 y cant dros y ddwy flynedd. Ar ben hyn, maent hefyd yn disgwyl i incwm gwirioneddol ostwng eto y flwyddyn nesaf.

Mae'r cynnydd mewn prisiau wedi effeithio fwyaf ar aelwydydd incwm isel. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod aelwydydd incwm isaf yn profi


cyfradd chwyddiant uwch na'r cyfartaledd, a bod y cartrefi incwm uchaf yn profi chwyddiant is na'r cyfartaledd. Mae'r gwahaniaeth hwn yn codi oherwydd bod prisiau mawr bwyd ac ynni yn effeithio mwy ar aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn effeithio hefyd ar bobl ifanc a phobl sy'n rhentu cartrefi (grwpiau sy'n gorgyffwrdd), grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Mae tystiolaeth bod lefelau dyled yn cynyddu ymysg deiliaid tai ar incwm isel, ac mae elusennau banciau bwyd yn adrodd bod cynnydd yn y galw.

Cyflogaeth a'r farchnad lafur

Yn y gorffennol, ystadegau'r farchnad lafur oedd yr ystadegau mwyaf amserol a dibynadwy ar gael ar berfformiad economaidd Cymru. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cydnabod yn ddiweddar bod y prif ddata o'r Arolwg o'r Llafurlu yn annibynadwy erbyn hyn, gan adlewyrchu cyfraddau ymateb sy'n dirywio. Mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wella'r arolwg, ond yn y cyfamser mae'n debyg mai'r dangosydd amserol gorau o berfformiad cymharol Cymru yw'r un a ddarperir gan y ffigurau ar gyfer nifer y gweithwyr sydd ar gael o'r system TWE amser real (gweler Siart 3).

Siart 3: Cyflogaeth, Cymru a'r DU (2019 chwarter 4 =100).



Ffynhonnell: SYG

Noder: Mae data ar gyfer y mis diweddaraf, Hydref 2023, yn ddata dros dro ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ddiwygio.


Mae'r siart yn dangos, yn ystod y pandemig a'r broses adfer ddilynol, fod y farchnad lafur yng Nghymru wedi perfformio'n debyg i farchnad lafur y DU drwyddi draw.

Yn gyffredinol, mae'r farchnad lafur yng Nghymru ac yn y DU wedi perfformio'n well na'r disgwyl o bosibl, ac ystyried y lleihad mawr mewn GDP. Mae'n amlwg bod mesurau cymorth y Llywodraeth wedi chwarae rhan bwysig yma.

Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf ar gyfer Cymru a'r DU yn dangos arwyddion bod y farchnad lafur wedi gwario gyda chyfraddau cyflogaeth wedi gostwng ychydig.

Fel sydd yn wir ar draws gweddill y DU, mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Mae Siart 4 yn dangos y data ar gyfer Cymru. Er bod pryderon diweddar am ddibynadwyedd yr arolwg ffynhonnell yn gallu dylanwadu ar ymddiriedaeth yn y niferoedd, credir bod y siart yn rhoi syniad da o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno newidiadau diweddar.

Siart 4: Anweithgarwch economaidd yng Nghymru (16-64 oed), newid ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Mae'r siart yn dangos bod cynnydd mawr, i bob golwg, wedi bod yn nifer y bobl sy'n anweithgar oherwydd eu bod yn rhy sâl i weithio o'i gymharu â'r sefyllfa cyn y pandemig. Mae'r canlyniad hwn wedi parhau dros y chwarteri diwethaf ac mae'n cael ei weld ar lefel Cymru a'r DU. Nid yw anweithgarwch cynyddol oherwydd salwch wedi'i gyfyngu i bobl hŷn o oedran gweithio, er mai pobl hŷn sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd. Bu cynnydd sylweddol mewn anweithgarwch ymhlith gweithwyr iau hefyd, llawer â phroblemau iechyd meddwl.

Mae anweithgarwch oherwydd bod rhywun yn gofalu am gartref y teulu wedi gostwng, yn rhannol efallai oherwydd bod mwy o weithio hybrid a gweithio gartref.

Mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, tueddiadau mewn anweithgarwch oherwydd ymddeoliad, mae'r darlun yn wahanol rhwng Cymru a'r DU, ond wrth ystyried y problemau posibl o ran diffyg dibynadwyedd arolygon, nid yw'n glir faint y dylid ymddiried yn y canfyddiadau hyn.

Er gwaethaf yr arwyddion diweddar o wanhau, mae perfformiad y farchnad lafur yng Nghymru yn cymharu'n dda â gweddill y DU yn hanesyddol. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol², mae perfformiad diweddar yn cyferbynnu â'r cyfnod cyn datganoli, pan oedd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru bump i chwe phwynt canran yn is na'r DU yn nodweddiadol (gan adlewyrchu lefel uwch o lawer o anweithgarwch economaidd yng Nghymru).

Gan edrych tua'r dyfodol, rhagwelir dirywiad yn amodau'r farchnad lafur ar draws y DU, wrth i ddefnyddwyr a busnesau leihau eu gwariant mewn ymateb i'r lleihad mewn incwm gwirioneddol. Trafodir y rhagolygon ymhellach isod.

Waeth beth yw cyflwr y farchnad lafur ar unrhyw adeg benodol, mae grwpiau difreintiedig yn tanberfformio. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl â lefelau sgiliau isel, pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor, menywod â phlant ifanc, ac aelodau o rai grwpiau lleiafrifol.³ Mae pob grŵp o'r fath yn dueddol o ddiodef yn anghymesur os yw amodau'r farchnad lafur yn dirywio.

Masnach ryngwladol

Mae allforio rhyngwladol yn farchnad bwysig i gwmnïau Cymru ac mae mewnforyn yn darparu mewnbwn i fusnesau, a nwyddau i ddefnyddwyr, gan gadw prisiau i lawr a chynyddu'r dewis i ddefnyddwyr fel rheol.

Ers 2019, mae allforio nwyddau, ar gyfartaledd, yn cynrychioli cyfran uwch o GDP i Gymru nag i'r rhan fwyaf o'r rhannau eraill yn y DU. Mae hyn yn awgrymu y gallai Cymru fod yn fwy agored i sioc economaidd yn sgil newidiadau i berthynas fasnachu na rhannau eraill o'r DU.

Mae masnach fyd-eang wedi bod yn gyfnewidiol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn fwy byth i'r DU. Gwelwyd newidiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE yn cael ei ddwysáu gan anwadalrwydd yn sgil pandemig Covid-19 a'r hyn sydd wedi digwydd ar ôl y pandemig.

Er bod masnach y DU a Chymru wedi adfer i lefelau cyn y pandemig, mae'r OBR wedi nodi bod yr adferiad ar gyfer y DU wedi bod ar gyfradd arafach na gwledydd eraill y G7.

² [adroddiad-y-prif-economegydd-2020.pdf \(llyw.cymru\)](#)


³ Mae meintiau sampl cyfyngedig yng Nghymru yn golygu bod y casgliadau ar gyfer rhai grwpiau difreintiedig yn deillio o ddata ar lefel y DU.

Mae'r OBR yn dal i ddisgwyl gweld y bydd gadael yr UE yn lleihau dwysedd masnachu'r DU (allforion a mewnfurion fel cyfran o GDP) 15 y cant yn yr hirdymor. Nododd yr OBR, o 2023 ymlaen, fod dwysedd masnachu'r DU yn dal yn 1.7 y cant yn is na'i lefel yn 2019, o'i gymharu â chynnydd cyfartalog o 1.9 y cant ar draws economïau eraill G7.

Mae'n ymddangos bod y gwendid cymharol ym masnach y DU ers y pandemig yn cael ei egluro'n llwyr gan fasnachu nwyddau, gan fod masnach gwasanaethau'r DU wedi tyfu ar gyfradd debyg i wledydd eraill y G7. Gallai hyn awgrymu bod gwrthdaro Brexit a'r tarfu ar ôl y pandemig wedi pwysu mwy ar fasnach nwyddau na masnach gwasanaethau.

Mae'r data diweddaraf, a welir yn Siart 5, yn dangos fod y duedd ym mherfformiad allforio nwyddau Cymru ers tuag adeg y refferendwm wedi bod yn debyg iawn i'r duedd ar gyfer y DU gyfan. Er eu bod yn fwy na'r lefelau masnach nwyddau cyn y pandemig, mae'r ddau wedi gweld adferiad mewn masnachu sy'n wan yn y cyd-destun rhyngwladol. Yn yr un modd â'r DU drwyddi draw, mae'n debygol fod Brexit yn chwarae rhan yma.

Siart 5: Cymru a'r DU, gwerth cyfanswm allforion nwyddau, heb gynnwys petrolewm a chynhyrchion cysylltiedig (2016=100)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Noder: Mae petrolewm a chynhyrchion cysylltiedig yn cael eu heithrio gan fod allforion yn anwadal.

Mae hefyd yn bwysig ystyried digwyddiadau economaidd byd-eang eraill, yn benodol y gwrthdaro yn Wcráin, a sut mae'r rhain yn effeithio ar werth masnach, yn enwedig gan fod pwysau chwyddiant yn codi prisiau cynnyrch.

Mae'r effaith hon ar werth allforion yn creu heriau o ran dehongli perfformiad masnach Cymru. Mae data masnach yn awgrymu bod yr adferiad a welwyd yng ngwerth masnach yn 2022 wedi'i ysgogi'n rhannol, o leiaf, gan bwysau chwyddiant, a oedd yn effeithio ar werth yn hytrach na swmp y fasnach. Mae'r data diweddaraf ar gyfer hanner cyntaf 2023 yn dangos newid posibl, gyda gwerth masnach nwyddau yn gostwng er bod swmp y fasnach yn parhau i dyfu. Mae hyn yn awgrymu y gallai amrywiadau ym mhrisiau nwyddau fod yn parhau i ystumio'r darlun cyffredinol ar gyfer masnach Cymru.

Mae'r UE yn dal yn farchnad bwysig i allforion nwyddau Cymru. Mae'r rhan fwyaf o allforion nwyddau Cymru (58 y cant) yn dal yn mynd yno yn ôl y data diweddaraf.⁴ Fodd bynnag, mae'r pwysigrwydd hwn wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y ffigur yn 61% yn 2019.

Nid yw'r newid hwn i ffwrdd o farchnad yr UE ar gyfer Cymru yn annisgwyl wrth ystyried y newid mewn telerau masnachu â'r UE ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Gallai'r broses o ailstrwythuro cadwyni cyflenwi ynghyd â'r ffocws cynyddol ar farchnadoedd y tu allan i'r UE, yn enwedig wrth i Lywodraeth y DU sicrhau cytundebau masnach â gwledydd fel Awstralia a Seland Newydd (a llawer mwy yn cael eu trafod), esbonio hyn yn rhannol, ond mae angen rhagor o ddata cyn gellir dod i gasgliad.

⁴ Y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ch2, 2023.


Rhagolygon economaidd tymor byrrach

Rhagolygon y DU

Fel y nodwyd eisoes, mae Cymru wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn economi ehangach y DU ac mae rhagolygon economaidd Cymru yn dibynnu'n drwm ar ddisgwyliadau ar gyfer y DU.

Yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd, mae'r OBR yn nodi, er bod chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol o'i ffigur uchaf, mae disgwyl iddo aros ar lefel uwch am gyfnod hwy nag a ragwelwyd yn flaenorol. Disgwylir y bydd chwyddiant uwch yn arwain at barhad yn y wasgfa ar incwm gwirioneddol. Disgwylir i hyn, ynghyd â chyfraddau llog sy'n aros ar lefel uwch, a llai o'r cymorth a gyflwynwyd yn ystod y pandemig gan lywodraeth y DU, bwysu ar ddefnydd a buddsoddiad. O ganlyniad, mae'r OBR yn disgwyl i dwf gwir GDP arafu o 4.3 y cant yn 2022 (gan adlewyrchu'r adferiad ar ôl y pandemig) i 0.6 y cant eleni, a 0.7 y cant y flwyddyn nesaf (gweler Siart 6).

Siart 6: Alldro gwir GDP y DU a rhagolygon yr OBR (Ch4 2019=100)



Ffynhonnell: ONS, OBR


Mae'r OBR yn rhagweld y bydd twf yn codi i 1.4 y cant yn 2025, a 1.9 y cant ar gyfartaledd rhwng 2026 a 2028, wrth i'r wasgfa ar gyflogau gwirioneddol leihau ac wrth i gyfraddau llog ostwng. Mae'r twf cronus gwirioneddol rhwng 2023 a 2027 yn 2.4 pwynt canran yn is nag yn y rhagolwg blaenorol ym mis Mawrth. Fodd bynnag, gan fod diwygiadau data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynyddu'r ffigurau GDP

alldro ar gyfer blynyddoedd blaenorol, daw'r twf arafach hwn o sylfaen uwch, gan arwain at lefelau GDP ar gyfer 2026 ymlaen sy'n debyg i'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.

I grynhoi, mae'r rhagolwg eto'n un lle mae rhagolygon twf yn ddi-nod ar y gorau – a byddai hyn hyd yn oed yn waeth pe bai'n cael ei fynegi fesul pen. Er hynny, mae disgwyliad yr OBR ar gyfer twf yn llai pesimistaidd na'r rhagolwg diweddaraf gan Fanc Lloegr.

Fel y dangosir yn Siart 7, mae'r OBR yn disgwyl i ddiweithdra godi i oddeutu 4.6 y cant o'r llafurlu yn ail chwarter 2025. Mae'r cynnydd hwn mewn diweithdra yn uwch, a blwyddyn yn ddiweddarach, na'r hyn a ddisgwylwyd ym mis Mawrth. Rhagwelir y bydd diweithdra'n disgyn wedyn yn ôl i'w gyfradd strwythurol dybiedig (neu "hirdymor gwaelodol") o 4.1 y cant erbyn 2028.


Siart 7: Alldro cyfradd diweithdra a rhagolwg yr OBR (y DU)



Ffynhonnell: ONS, OBR

Mae'r OBR yn disgwyl i chwyddiant barhau'n uwch am fwy o amser na'r disgwyl tan ail chwarter 2025 i ddychwelyd at y targed o 2 y cant. Dangosir hyn yn Siart 8.

Siart 8: Alldro chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a rhagolwg yr OBR yn y dyfodol agos (y DU)



Ffynhonnell: SYG, OBR

Mae'r OBR yn disgwyl y bydd twf cyflogau nominal cryf yn gwneud mwy na gwrthbwysu'r dirywiad disgwylidig mewn prisiau nwy. O bwynt uchaf o 10.7 y cant yn chwarter olaf y llynedd, mae disgwyl erbyn hyn i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr ddisgyn i 4.8 y cant yn chwarter olaf 2023. Wrth i lefel gymedrol o gapasiti dros ben yn yr economi ddod ar gael ac wrth i brisiau nwy ostwng ymhellach, bydd chwyddiant yn gostwng ychydig yn is na'r targed 2 y cant rhwng 2025 a 2027, cyn dychwelyd at hyn yn 2028.

Mae'r OBR yn rhagweld y bydd safonau byw, wedi'u mesur yn ôl gwir incwm gwario aelwydydd (RHDI) y pen, 3.5 y cant yn is yn 2024-25 na'i lefel cyn y pandemig. Y prif ffactorau yw effaith chwyddiant a chynnydd mewn trethi. Er bod hwn yn hanner y gostyngiad o'r pwynt uchaf i'r pwynt isaf yr oedd OBR yn ei ddisgwyl ym mis Mawrth, mae'n dal yn cynrychioli'r gostyngiad mwyaf mewn safonau byw go iawn ers i gofnodion y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddechrau yn y 1950au. Bydd RHDI y pen yn adfer i'w lefel cyn y pandemig yn 2027-28.


Rhagolygon Cymru

Yn gyffredinol, mae asesiad yr OBR o ragolygon yn y dyfodol agos ar gyfer y DU hefyd yn berthnasol i Gymru.

Mae Siart 9 yn dangos alldro a rhagolygon safonau byw Cymru a'r DU, fel y'u mesurir gan incwm gwirioneddol cyfartalog (cymedrig) y pen. Dylid ystyried y

rhagolwg ar gyfer Cymru yn un enghreifftiol oherwydd mae'n tybio y bydd y berthynas hanesyddol rhwng incwm yng Nghymru a'r DU yn parhau yn y dyfodol.

Siart 9: Incwm cyfartalog y pen, Cymru a'r DU: alldro a rhagolygon DU 2008= 100



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru, OBR

Noder: Y mesur yw gwir incwm gwario aelwydydd y pen ar gyfartaledd (cymedrig).

Yn dilyn gostyngiad sydyn yn 2022, rhagwelir y bydd incwm cyfartalog yng Nghymru yn gostwng yn 2023 a 2024. Yn 2024, rhagwelir y bydd incwm cyfartalog dros ddau y cant yn is na'r lefel cyn y pandemig yn 2019. Rhagwelir y bydd adferiad bach yn 2025-26 yn dal i olygu y bydd incwm yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Rhagwelir mai dim ond yn 2026-27 y bydd y lefel cyn y pandemig yn cael ei hadfer. Byddai hyn yn cynrychioli saith mlynedd o dwf incwm wedi'i golli, ac mae'n dilyn cyfnod hir lle mae incwm gwirioneddol wedi cynyddu ar raddfa araf iawn mewn termau hanesyddol (mae'r duedd hirdymor yn cael ei thrafod ymhellach isod.)

Mae'r gostyngiad a ragwelir mewn incwm gwirioneddol yn ddigynsail, ac yn waeth o lawer nag a welwyd yn y blynyddoedd ar ôl yr argyfwng ariannol yn 2008. O ganlyniad i'r lefelau incwm is yng Nghymru, amllder tlodi sy'n uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU, a thai sy'n llai ynni-effeithlon ar gyfartaledd, mae bron yn sicr y bydd hyn yn cael effaith drom iawn ar bobl yng Nghymru.

Bydd rhoi'r gorau i daliadau costau byw yn cael effaith niweidiol ychwanegol ar safonau byw aelwydydd tlotach yng Nghymru.

Gallai pwysau ar incwm pobl arwain at lai o wariant, gydag effeithiau niweidiol ychwanegol ar gyflymder y broses adfer ac ar gyflogaeth leol mewn ardaloedd â nifer fawr o bobl ar incwm isel.

Rhagolygon economaidd tymor hwy Cymru

Patrymau safonau byw yng Nghymru

Mae'r adran hon yn adolygu tueddiadau tymor hwy safonau byw yng Nghymru, gan gymharu Cymru â gweddill y DU a thu hwnt.

Cefndir

Gan fod yr adroddiad hwn yn ystyried datblygiadau a rhagolygon yr economi yn bennaf, mae'r ffocws ar safonau byw materol fel y'u mesurir gan incwm aelwydydd. Ond fel y mae'r argyfwng costau byw a'r pandemig wedi'i amlygu eto, mae agweddau eraill ar lesiant yn hollbwysig, ac mae rhai dangosyddion llesiant meddyliol, er enghraifft, wedi dangos dirywiad sylweddol ar wahanol gamau o'r pandemig.

Mae Adroddiad Llesiant Cymru⁵ blynyddol Llywodraeth Cymru yn adolygu tueddiadau diweddar wrth iddynt effeithio'n fwy cyfannol ar lesiant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol⁶ ar gyfer 2021 yn darparu asesiad wedi'i ddiweddarau o oblygiadau'r tueddiadau hirdymor sy'n wynebu Cymru. Felly, nid yw'r safbwynt ehangach hwn wedi'i ddyblygu yn yr adroddiad cyfredol, sydd â ffocws mwy penodol.

Mae gwybodaeth am incwm aelwydydd yng Nghymru ar gael o ddwy ffynhonnell. Un yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n darparu canlyniadau allweddol ar gyfer incwm cymedrig a chanolrifol aelwydydd, ac ar gyfer lefelau tlodi.

Yn y gorffennol, mae maint sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru wedi bod yn fach, sy'n golygu bod angen canfod cyfartaledd data dros nifer o flynyddoedd (gan gynhyrchu canlyniadau nad ydynt yn amserol) a bod hyn yn aml yn rhwystro dadansoddiad manwl. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu hwb i'r Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i ddadansoddi newidiadau mewn safonau byw yng Nghymru, ac yn benodol i asesu sut mae newidiadau o'r fath yn effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth, gan gynnwys y rheini sydd â lefelau isel o incwm.

Y ffynhonnell arall o wybodaeth am incwm yw Cyfrifon Rhanbarthol ONS, sy'n dangos canlyniadau ar gyfer incwm aelwydydd cyfartalog (cymedr). Mae data'r Cyfrifon Rhanbarthol yn cynnwys rhywfaint o incwm sy'n "tybiannol" yn hytrach na gwirioneddol, yn bwysicaf oll, gwerth y gwasanaethau tai y tybir bod perchnogion preswyl yn eu cael.

Dylid nodi, fel y dangosodd adroddiad 2020⁷, fod llawer mwy o amrywiaeth fel arfer mewn safonau byw o fewn ardaloedd na rhyngddynt, gyda nodweddion unigolion ac

⁵ [Llesiant Cymru: 2023 | LLYW.CYMRU](#)

⁶ [Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun cyfunol ar gyfer 2021 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁷ [adroddiad-y-prif-economegydd-2020.pdf \(llyw.cymru\)](#)

aelwydydd yn dylanwadu'n bennaf ar incwm, yn enwedig lefelau cymwysterau a statws iechyd.

Er enghraifft, yng Nghymru, mae lefelau incwm cyfartalog y bobl yn yr un rhan o ddeg o'r boblogaeth â'r incwm uchaf tua chwe gwaith yn uwch na'r un rhan o ddeg o'r boblogaeth â'r incwm isaf. Yn groes i hynny, mae'r incwm cyfartalog yn yr awdurdod lleol yng Nghymru â'r lefel incwm uchaf dim ond tua 50 y cant yn uwch na'r awdurdod lleol â'r lefel incwm isaf.

Mae'r ystyriaethau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol system dreth a budd-daliadau ehangach y DU o ran lliniaru amrywiadau mewn safonau byw, ac felly at ganlyniadau pwysig dewisiadau polisi a wneir gan Lywodraeth y DU yn y meysydd hyn.

Mae lefel yr aiddosbarthu o dan system dreth a budd-daliadau'r DU yn effeithio'n uniongyrchol ar incwm pobl, ond mae effeithiau anuniongyrchol hefyd ar lefelau allbwn economaidd lleol o ganlyniad i'r effaith ar wariant defnyddwyr.

Tueddiad incwm cyfartalog

Pan fydd cymhariaeth rhwng Cymru a'r DU ar sail mesurau o incwm cyfartalog pobl, mae'r bwlch yn sylweddol llai na phan fydd cymhariaeth ar sail GDP neu werth ychwanegol gros (GVA) y pen. Mae'r bwlch yn llai i raddau helaeth oherwydd y trosglwyddiadau mawr a wneir drwy system gyllidol y DU. Mae hefyd yn llai oherwydd mae'r allgymudo net o Gymru yn golygu bod Cymru yn ennill incwm drwy weithgarwch economaidd sy'n digwydd y tu allan i Gymru.

Gellir mesur incwm cyfartalog gan ddefnyddio'r canolrif neu'r cymedr. Diffinnir incwm *canolrifol* aelwydydd fel incwm yr aelwyd sydd yng nghanol y dosbarthiad incwm pan fo aelwydydd yn cael eu trefnu yn ôl incwm. Gellir ei ystyried felly fel rhywbeth sy'n adlewyrchu incwm aelwyd "nodweddiadol", ac fe gaiff ei ystyried yn eang fel y mesur mwyaf cynrychioliadol o safonau byw materol.


Mae Siart 10 yn dangos tueddiadau tymor hwy incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru a'r DU mewn termau real, yn cynnwys yn bennaf y cyfnod cyn pandemig Covid⁸. Er yr amrywiadau blynyddol, mae cysylltiad cryf rhwng y tueddiadau ar gyfer Cymru a'r DU, fel y disgwyliad o ystyried eu cyd-destun economaidd ac ariannol sy'n gyffredin i raddau helaeth. Mae'r data yn y siart yn dangos bod incwm canolrifol yng Nghymru a'r DU wedi cynyddu tua 1.8 y cant y flwyddyn dros y cyfnod cyfan, ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio newid sylweddol mewn tueddiadau.

Roedd y twf mewn incwm gwirioneddol wedi arafu'n sylweddol o tuag adeg yr argyfwng ariannol yn 2008. O'r pwynt hwn ymlaen, roedd y twf mewn incwm o dan un y cant y flwyddyn ar gyfartaledd. Cyn hyn, roedd cyfradd y twf yn uwch – ymhell dros ddau y cant y flwyddyn dros y degawd blaenorol. Pe bai incwm wedi parhau i dyfu ar y gyfradd yr oedd yn tyfu cyn yr argyfwng ariannol, byddai incwm

⁸Roedd y pandemig wedi effeithio ar faint a chyfansoddiad sampl sylfaenol yr arolwg yn 2020-21, felly mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn argymhell bod defnyddwyr yn cymryd gofal ychwanegol wrth ddehongli newidiadau a welwyd yn ystod y cyfnod hwn.

gwirioneddol – a safonau byw – ymhell dros 20 y cant yn uwch na’u lefel gwirioneddol erbyn hyn.

Siart 10: Incwm canolrifol aelwyd (£ yr wythnos, prisiau 2019-20)



Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau Teulu

*GB ar gyfer y blynyddoedd cyn 2002-03

Nodiadau: Cyfrifir cywerthedd data i sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu cyfansoddiad aelwydydd tebyg ac yn cael eu dangos ar ôl costau tai.

Mae'r cyfnod hir o dwf araf mewn incwm a safonau byw ers yr argyfwng ariannol yn un na welwyd ei debyg o'r blaen yn y cyfnod modern, ac i raddau helaeth mae'n adlewyrchu twf araf mewn cynhyrchiant, sef prif sbardun safonau byw yn y pen draw⁹.

Er bod Siart 10 yn dangos bod tueddiadau incwm canolrifol yn eithaf tebyg yng Nghymru a'r DU, mae Cymru wedi cydgyfeirio rywfaint â'r DU ers canol yr 1990au. Dros y cyfnod diweddaraf, roedd incwm canolrifol aelwydydd yng Nghymru oddeutu pedwar y cant yn is na'r DU yn ei chyfanrwydd, ac roedd y bwch yng Nghymru yn llai nag yr oedd mewn nifer o ranbarthau yn Lloegr¹⁰. Yng nghanol yr 1990au, tua saith y cant oedd y bwch.

Mae'r ffynhonnell wybodaeth arall am incwm aelwydydd yng Nghymru, Cyfrifon Rhanbarthol yr ONS, yn dangos bwch mwy rhwng incwm yng Nghymru a'r DU. Y


⁹ Mae gwendid sylfaenol twf cynhyrchiant dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael ei guddio braidd yn y siart gan fod y twf mewn incwm wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan adferiad mewn cyfraddau cyflogaeth, rhywbeth sy'n amlwg â photensial cyfyngedig yn unig.

¹⁰ Er bod y ffigur hwn yn addasu ar gyfer gwahaniaethau mewn costau tai, nid yw'n ystyried gwahaniaethau eraill mewn costau byw. Mae dadansoddiad blaenorol gan SYG yn awgrymu pe byddai gwahaniaethau o'r fath yn cael eu hystyried, y gallai leihau'r bwch hyd at oddeutu 2 bwynt canran.

mesur o incwm a ddefnyddir yw Incwm Gros Aelwydydd Domestig (GDHI). Mae hyn yn fesur o incwm *cymedrig*, yn hytrach na chanolrifol.

Mae Siart 11 yn dangos GDHI y pen yng Nghymru a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU, o'u cymharu â'r DU.

Siart 11: Incwm Gros Aelwydydd Domestig, y DU=100



Ffynhonnell: SYG

Mae'r bwlch mwy o lawer rhwng Cymru a'r DU pan fo'r gymhariaeth yn seiliedig ar fesur incwm cymedrig yn hytrach na chanolrifol, yn adlewyrchu'n rhannol y gyfran gymharol fach o'r boblogaeth yng Nghymru sydd ar incwm uchel. Wrth gwrs mae'r gyfran fach wedi'i hadlewyrchu yng nghyfrifiad yr incwm cymedrig, ond nid yr incwm canolrifol.

Yn ystod y cyfnod diweddaraf sydd ar gael, 2021, roedd GDHI y pen yng Nghymru y trydydd isaf ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, ond ychydig yn uwch na Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd GDHI y pen yng Nghymru yn 83.2 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU – neu mewn geiriau eraill, 16.7 y cant yn is na'r DU.

Mae'r data yn Siart 11 yn dangos, yn wahanol i'r mesur o incwm canolrifol aelwydydd, bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran GDHI wedi ymestyn dros y cyfnod hwy, ¹¹ er mae rhywfaint o adferiad wedi bod dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Wrth archwilio'r data sylfaenol, mae'n ymddangos bod dau ffactor wedi bod yn bwysig o ran egluro'r gwahaniaeth tymor hwy mewn tueddiadau rhwng incwm canolrifol cymharol aelwydydd Cymru a GHDH cymharol Cymru. Y cyntaf yw dosbarthiad twf cyflogau, lle mae twf cyflymach mewn cyflogau i'r rhai sydd eisoes ar gyflog mawr mewn rhannau eraill o'r DU. Yr ail yw twf arafach mewn incwm rhent

¹¹ Mae mesur o incwm cymedrig hefyd ar gael gan yr Arolwg o Adnoddau Teulu, ochr yn ochr â'r mesur o incwm canolrifol. Mae'r bwlch gyda'r DU a ddangosir ar y mesur hwn yn eithaf cyfnewidiol, ond heb fawr o arwydd o unrhyw dueddiad bod y bwlch yn cau.

yng Nghymru. Mae'r ddau ffactor hyn wedi'u hadlewyrchu yn GDHI ond nid mewn incwm canolrifol. Cafodd y mater hwn ei archwilio'n fanylach yn adroddiad y Prif Economegydd yn 2021.¹²

Safonau byw Cymru - cymhariaeth ryngwladol

Mae cymharu safonau byw Cymru, fel yr adlewyrchir mewn incwm aelwydydd, â gwledydd a rhanbarthau eraill o faint tebyg yn rhoi cipolwg defnyddiol. Mae Tabl 1 yn dangos data gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan ddangos incwm aelwydydd y pen ar gydraddoldeb pŵer prynu.¹³ Mae'r tabl yn dangos Cymru a'r rhanbarthau a nodwyd fel ei chymheiriaid agosaf pan fydd rhanbarthau'n cael eu trefnu yn ôl lefelau incwm.¹⁴ Mae'r tabl yn dangos bod safonau byw cyfartalog Cymru, fel sydd wedi'i adlewyrchu gan incwm aelwydydd, yn debyg i rai nifer o ranbarthau eraill yng ngorllewin Ewrop, ac maent yn debyg iawn (ychydig yn uwch mewn gwirionedd) na rhai Gogledd Iwerddon.

Tabl 1: Incwm aelwydydd y pen: Cymru = 100, 2018-19

Denmarc: Zealand	101.0
DU: Gogledd Iwerddon	100.8
Sbaen: Ynysoedd Balearig	100.2
Y Ffindir: Dwyrain a Gogledd y Ffindir	100.2
Ffrainc: Hauts-de-France	100.2
Cymru	100.0
Iwerddon	99.9
Yr Iseldiroedd: Flevoland	99.9
Sbaen: Cantabria	99.7
Yr Iseldiroedd: Friesland	99.7
Denmarc: Jutland Canolig	99.4

Ffynhonnell: OECD

Sylwer: Mae data'n anwadal o flwyddyn i flwyddyn, a rhoddir y cyfartaledd ar gyfer y ddwy flynedd ddiweddaraf cyn y pandemig. Mae data ar gael ar gyfer 2020 ond bydd effeithiau'r pandemig ac ymatebion cysylltiedig y llywodraeth yn dylanwadu arnynt.

Efallai fod y canlyniad hwn yn annisgwyl, ac ystyried perfformiad cryf Iwerddon mewn dangosyddion seiliedig ar GDP. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod dangosyddion o'r fath yn arbennig o gamarweiniol yn achos Iwerddon, yn rhannol oherwydd eu bod yn adlewyrchu elw a gofnodir yn Iwerddon yn hytrach nag incwm preswylwyr Iwerddon.

Nid yw incwm gwario yn ystyried gwasanaethau'r llywodraeth a ddarperir mewn ffyrdd eraill, fel gwasanaethau iechyd yn y DU. Mae Eurostat a'r OECD yn argymhell y dylid gwneud cymariaethau rhyngwladol ar sail Defnydd Unigol Gwirioneddol (AIC), sydd ddim yn ystyried gwasanaethau o'r fath. Fodd bynnag, nid yw AIC ar gael i Gymru nac ar lefel ranbarthol i wledydd eraill. Mae canlyniadau ar lefel gwladwriaeth yn dangos bod y DU yn dueddol o berfformio'n well pan gaiff ei chymharu yn ôl AIC

¹² [Cyllideb Cymru 2021: adroddiad y Prif Economegydd | LLYW.CYMRU](#)

¹³Mae cymharu ar gydraddoldeb pŵer prynu yn ystyried y gwahaniaethau mewn costau byw.

¹⁴Mae Iwerddon yn cael ei chynnwys fel un wlad yn hytrach nag ar sail ei dau ranbarth.

yn hytrach nag yn ôl incwm gwario, ac felly mae bron yn sicr y byddai'r un peth yn wir am Gymru¹⁵.

¹⁵ Roedd cymhariaeth ddiweddaraf yr ONS o safonau byw yn y DU ar sail AIC ar gyfer y flwyddyn 2020: [Defnydd unigol gwirioneddol y pen yn y DU – y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)


Tueddiadau mewn allbwn economaidd Cymru

Cynnyrch domestig gros

Er ei bod yn hysbys bod cyfyngiadau iddo o ran mesur safonau byw, a mesur o lesiant i raddau mwy eto, mae cynnyrch domestig gros (GDP) a gwerth ychwanegol gros (GVA) sydd bron gyfwerth¹⁶ yn dal yn bwysig fel dangosyddion allweddol o gryfder sylfaenol economi Cymru, ac felly hefyd y sylfaen drethu. Prif sbardun GDP a GVA dros yr hirdymor yw twf mewn cynhyrchiant, ac mae hyn yn ei dro yn cefnogi cyflogau uwch, refeniw trethi uwch a safonau byw uwch yn gyffredinol. Mae perfformiad cynhyrchiant yng Nghymru yn cael ei drafod ymhellach isod.

Mae perfformiad cymharol Cymru o ran GVA y pen o'i gymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU i'w weld yn Siart 12.

Siart 12: GVA y pen, y DU=100



Ffynhonnell: SYG

Mae'r data diweddaraf o ran GVA ar gyfer 2021, pan oedd GVA y pen yng Nghymru yn 74.1 y cant o'r ffigur ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd – yr ail isaf ymysg holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Mae'r ffigurau hyn wedi'u seilio ar ddata poblogaeth ac maent yn cael eu hadolygu, felly dylid bod yn wylidwrus wrth eu dehongli.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae GVA y pen yng Nghymru wedi codi'n uwch na'r ffigur yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, sydd wedi gwrthdroi'r sefyllfa flaenorol, oherwydd Cymru oedd â'r GVA isaf y pen o holl wledydd a rhanbarthau'r DU am flynyddoedd lawer.

Mae allgymudo net (sydd ddim yn cyfrannu at GDP Cymru ond yn cyfrannu at incwm yng Nghymru) yn effeithio'n negyddol ar berfformiad Cymru o ran GVA y pen, fel y

¹⁶ Mae GDP yn wahanol i GVA dim ond drwy gynnwys rhai trethi a chymorthdaliadau. Mae lefelau perfformiad cymharol a thueddiadau Cymru o ran GDP a GVA yn debyg iawn, a gellir ystyried bod y cysyniadau'n gyfnewidiadwy at y dibenion presennol.

mae strwythur oedran y boblogaeth. Mae cyfran gymharol uchel o bobl hŷn sy'n llai tebygol o fod mewn gwaith.

Mae perfformiad Llundain o ran GVA yn allanolyn clir, gan adlewyrchu'n rhannol effaith mewngymudo, sy'n ychwanegu at GVA Llundain ond nid at ei phoblogaeth. Mae Llundain wedi gwella ei sefyllfa gymharol dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ac, o ganlyniad rhifyddol, mae sefyllfa gymharol y rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill y DU wedi gwaethygu.

Fodd bynnag, nid yw perfformiad Cymru o ran GVA y pen o'i gymharu â'r DU yn dangos llawer o dueddiad yn y blynyddoedd diwethaf, er ei fod yn dal ychydig yn is nag yr oedd yn y cyfnod hyd at argyfwng ariannol 2008.

Amrywiad gofodol ar draws Cymru


Mae angen cymryd gofal wrth ddehongli GDP/GVA y pen ar lefel lleol, oherwydd mae patrymau cymudo a chyd-destun lleol yn dylanwadu'n drwm ar y ffigurau. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn rhannau mwy gwledig Cymru, mae'r GVA y pen yn llai na'r cyfartaledd ond mae'r lefelau incwm yn fwy na'r cyfartaledd.

Mae lefelau incwm a safonau byw yn amrywio ar draws Cymru wrth gwrs. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod a'i ddisgrifio'n fanylach yn yr adroddiadau ar gyfer 2021 a 2022, mae'r gwahaniaeth mewn incwm rhwng pobl ac aelwydydd yn fwy o lawer na'r gwahaniaeth ar draws ardaloedd. Ar ben hynny, nid oes tystiolaeth bod amrywiad gofodol mewn incwm yng Nghymru wedi cynyddu dros amser.

Gall economïau lleol dyfu'n gyflymach neu'n arafach heb i hyn, o reidrwydd, olygu ei fod yn effeithio ar lefel incwm y preswlydd cyffredin, oherwydd gellir adlewyrchu'r twf mewn newidiadau o ran cymudo a/neu fudo.

Dangosir twf economaidd gwahaniaethol ardaloedd awdurdodau lleol Cymru yn y data yn Siart 13, sy'n dangos newidiadau yn nifer y swyddi ym mhob ardal awdurdod lleol.

Siart 13: Newid mewn cyfanswm cyflogaeth 2009-10 i 2020-21¹⁷ yn ôl ardal awdurdod lleol Cymru (%)



Ffynhonnell: Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth

Er bod y data yn Siart 13 yn dangos yn gyffredinol bod y twf mewn swyddi wedi bod yn fwy mewn llawer mwy o ardaloedd trefol, nid oes patrwm daearyddol clir ar draws Cymru.

¹⁷Cyfartaleddau dwy flynedd yw'r rhain, nid blynyddoedd ariannol.


Heriau a chyfleoedd economaidd sy'n wynebu Cymru dros y tymor hwy

Cyd-destun y DU

Mae Llywodraethau diweddar y DU wedi rhoi cryn bwyslais ar yr angen i wella perfformiad twf sylfaenol economi'r DU, ond heb lwyddo fawr. Rhoddwyd llai o flaenoriaeth i ddsbarthiad incwm, ac eithrio mewn perthynas â phryder a fynegwyd ynghylch yr angen i "godi" perfformiad y rhanbarthau sydd ar ei hôl hi.

Fel y disgrifir uchod, mae economi'r DU wedi perfformio'n gymharol wael ers tuag adeg yr argyfwng ariannol. Mae Siart 14 yn edrych ar y sefyllfa dros dymor hwy ac yn dangos sut mae twf yng nghynhyrchiant y DU, y sbardun sylfaenol ar gyfer cynnydd cynaliadwy mewn safonau byw, yn cymharu â grŵp G7 o economïau mawr dros y degawdau ers y 1970au.

Siart 14: Cynhyrchiant llafur (allbwn fesul awr a weithiwyd) twf (%)




Ffynhonnell: OECD

Mae Siart 14 yn dangos bod twf cynhyrchiant llafur yn y DU wedi llusgo tu ôl i'r G7 yn y 1970au, wedi cadw yr un fath â nhw yn yr 1980au ac yn sylweddol gryfach yn y 1990au. Ar ôl 2000, yn y blynyddoedd cyn yr argyfwng ariannol, cadwodd y DU ar yr un lefel â nhw unwaith eto. Yn y blynyddoedd dilynol, mae'r DU wedi tanberfformio'n ddifrifol iawn. Mae gwella perfformiad cynhyrchiant y DU yn allweddol i gynyddu safonau byw cyfartalog ledled y DU, gan gynnwys Cymru.

Honnir weithiau y byddai polisïau i gynyddu cynhyrchiant yn golygu derbyn bod yn fwy anghyfaratal. Fodd bynnag, mae cymariaethau rhyngwladol yn dangos bod modd i'r DU fod yn fwy cefnog ac yn fwy cyfartal (gweler Siart 15).

Siart 15: Incwm cyfartalog ac anghydraddoldeb yn ôl gwlad, 2019



Ffynhonnell: OECD

Mae'r siart yn dangos mai dim ond dwy o brif wledydd yr OECD, Unol Daleithiau America a Mecsico, sydd â dosbarthiad incwm mwy anghyfartal na'r DU. Er bod gan Unol Daleithiau America lefel uwch o incwm cyfartalog na'r DU, mae nifer o wledydd datblygedig eraill wedi llwyddo i dyfu mwy na'r DU, gan arwain at lefel uwch o incwm cyfartalog, ac maen nhw'n fwy cyfartal.

Mae dadansoddiad yr OECD yn awgrymu mai dyma'r prif ffactorau ym mherfformiad gwael y DU o ran anghydraddoldeb incwm:

- mae incwm y farchnad (incwm cyn trethi a budd-daliadau) yn anghyfartal iawn.
- mae lefel aiddosbarthu arian yn y DU yn gymharol isel.¹⁸


Er hynny, ac fel y nodwyd yn flaenorol, aiddosbarthu o dan system gyllidol y DU yw'r prif reswm pam mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn llai o lawer wrth gymharu ar sail incwm aelwydydd nag wrth gymharu ar sail GDP/GVA y pen. Mae'r aiddosbarthiad wedi'i adlewyrchu ym malans cyllidol negatif mawr Cymru (gweler isod).

Felly, mae polisi Llywodraeth y DU o ran aiddosbarthu incwm yn ffactor hollbwysig sy'n dylanwadu ar safonau byw cymharol, anghydraddoldeb, a thlodi cymharol Cymru.

¹⁸ Gweler, er enghraifft: [Income redistribution | Government at a Glance 2021 | OECD iLibrary \(oecd-ilibrary.org\)](#)

Er nad yw twf economaidd, yn absenoldeb polisi gweithredol, o reidrwydd yn lleihau tlogdi cymharol, mae twf yn lleihau tlogdi absoliwt yn gyffredinol.¹⁹ Mae Siart 16 yn dangos y tueddiadau mewn tlogdi absoliwt a tlogdi cymharol ar gyfer Cymru a'r DU.

Siart 16: Tlogdi cymharol a tlogdi absoliwt, y DU a Chymru (ar ôl costau tai), canran y boblogaeth (cyfartaledd tair blynedd)



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Yn gyffredinol, mae'r siart yn dangos bod gostyngiad cymharol fach mewn tlogdi cymharol yng Nghymru a'r DU dros y cyfnod rhwng canol y 1990au a thuag adeg yr argyfwng ariannol. Ers hynny, mae tlogdi cymharol wedi bod yn weddol sefydlog. Mewn cyferbyniad, disgynnodd tlogdi absoliwt yn sydyn iawn dros y cyfnod blaenorol, pan oedd twf economaidd yn gymharol gyflym. Er bod tlogdi absoliwt wedi gostwng eto dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gostyngiad olaf hwn yn llawer mwy cymedrol ac yn debygol o adlewyrchu twf mewn cyfraddau cyflogaeth dros y cyfnod cyn y pandemig (ac efallai cymorth incwm a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig yn ystod blynyddoedd y pandemig).

Mae gostyngiadau cyson a sylweddol mewn tlogdi absoliwt yn dibynnu ar dwf economaidd cynaliadwy.

¹⁹Diffinnir tlogdi cymharol fel cyfran y boblogaeth sydd â lefel incwm sy'n is na chwe deg y cant o'r canolrif. Diffinnir tlogdi absoliwt fel cyfran y boblogaeth sydd â lefel incwm sy'n is na throthwy sydd wedi'i osod mewn termau real – yma, roedd 60 y cant o incwm canolrifol 2010-11 yn gyson mewn termau real.

Anfantais yn y farchnad lafur

Er bod y data diweddaraf wedi dangos rhai arwyddion o wendid, mae'r tueddiadau cyflogaeth tymor hwy yng Nghymru wedi bod yn gadarnhaol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r bwloch mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a'r DU, sy'n cael ei sbarduno gan anweithgarwch i raddau mwy na diweithdra, wedi lleihau'n sylweddol ers datganoli. Yn yr 1990au, roedd y bwloch tua phump i chwe phwynt canran fel arfer. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r bwloch wedi bod yn agosach i ddau y cant ar y cyfan, a diweithdra yng Nghymru yn debyg i'r DU am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd diwethaf, ac yn is na'r DU weithiau.

Y gobaith yw mai canlyniad dros dro yr amgylchiadau economaidd diweddar yw'r gwendid diweddar yn y farchnad lafur, ac yn benodol y cynnydd mewn anweithgarwch, yng Nghymru a Lloegr.

Fodd bynnag, mae effeithiau niweidiol tymor hwy ymadael â'r UE a nodwyd gan yr OBR yn debygol o gael eu teimlo yng Nghymru yn benodol, wrth ystyried ei dibyniaeth uwch na'r cyfartaledd ar weithgynhyrchu a'i chysylltiad â marchnadoedd yr UE. Mae dadansoddiad blaenorol gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid²⁰ yn dangos, heb fawr o syndod, mai'r ardaloedd hynny yng Nghymru sydd fwyaf dibynnol ar weithgynhyrchu sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Er gwaethaf y gwelliant yn y brif gyfradd cyflogaeth yng Nghymru dros y tymor hwy, yn yr un modd â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yn dal yn isel ymysg grwpiau sydd dan anfantais, yn enwedig y rhai â lefelau isel o gymwysterau, pobl anabl, pobl â salwch hirdymor, a rhai grwpiau lleiafrifol. Mae pryderon hefyd ynghylch y canlyniadau i bobl ifanc yn y farchnad lafur yn y dyfodol a allai ddeillio yn sgil y tarfu ar eu haddysg yn ystod y pandemig. Oherwydd eu natur, gall y creithiau posibl hyn gymryd amser hir i ymddangos mewn cyflogaeth ac incwm is. Y risg yw y bydd hyn yn arwain at fwy fyth o anghydraddoldebau dros y tymor hwy.

Tueddiadau o ran twf cynhyrchiant Cymru

Cynhyrchiant – faint o allbwn a gynhyrchir am bob awr a weithir – yw prif sbardun safonau byw yn y tymor hir. Dim ond os ydynt yn deillio o well cynhyrchiant y gellir cynnal cynnydd mewn cyflogau real. Mae cynhyrchiant hefyd yn un o'r prif bethau sy'n ysgogi maint y sylfaen drethu ac, o ganlyniad, lefel yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn eu tro, mae gwelliannau mewn cynhyrchiant yn cael eu sbarduno'n bennaf gan arloesedd. Diffiniad eang o hyn yw datblygu nwyddau a gwasanaethau newydd neu well a chynyddu effeithlonrwydd wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau.²¹ Mewn llawer o ardaloedd, y ffactor hollbwysig yw pa mor gyflym ac effeithiol y caiff

²⁰ [Brexit and labour market inequalities: potential spatial and occupational impacts - Institute For Fiscal Studies - IFS](#)


²¹ Mae adolygiad o'r ffactorau sy'n sbarduno cynhyrchiant ac arloesedd yng nghyd-destun y DU yma [LSEGC-2017-report.pdf](#), [Stagnation nation - The Inquiry \(resolutionfoundation.org\)](#), a [Productivity-in-the-UK-Evidence-Review.pdf \(niesr.ac.uk\)](#)

datblygiadau arloesol, a ddatblygwyd rhywle arall, eu mabwysiadu a defnyddio, yn hytrach na'r broses o ddyfeisio.

Mewn egwyddor, mae cynyddu cynhyrchiant yn caniatáu safonau byw uwch heb unrhyw gynydd yn y defnydd o fewnbwn neu lygredd, neu'r defnydd o adnoddau naturiol. Yn ymarferol, bydd i ba raddau y mae llygredd yn digwydd ac adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio, yn dibynnu ar y polisiau a roddir ar waith i leihau effeithiau o'r fath.

Mae tystiolaeth o'r degawdau diwethaf yn awgrymu bod Cymru (sy'n gyffredin â'r DU drwyddi draw a llawer o wledydd datblygedig eraill), mewn o leiaf un dimensiwn hollbwysig, wedi gallu cyfuno twf yn lefel yr allbwn (GDP), er bod y gyfradd yn ddi-nod yn hanesyddol, gyda gostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae hyn yn wir pan fydd allyriadau'n cael eu hystyried ar sail y cynhyrchu sy'n digwydd yng Nghymru neu ar sail defnydd preswylwyr Cymru (sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hymgorffori mewn nwyddau sy'n cael eu mewnfurio). Gweler Siart 17.


Siart 17: Tueddiadau yn GDP Cymru ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (2000=100)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyn argyfwng ariannol 2008, cynyddodd cynhyrchiant ledled y DU, gan gynnwys Cymru, ychydig dros ddau y cant bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ers hynny, mae cyfradd y twf mewn cynhyrchiant wedi gostwng, gyda chyfartaledd o lai nag un y cant y flwyddyn (gweler Siart 18).

Siart 18: Cynhyrchiant llafur (allbwn fesul awr a weithiwyd, 2019=100)



Ffynhonnell: SYG a Llywodraeth Cymru

Roedd cyfradd y cynnydd mewn cynhyrchiant cyn cyfnod yr argyfwng ariannol wedi helpu i ddyblu incwm gwirioneddol dros y 40 mlynedd o ganol yr 1970au ymlaen.

Pe bai'r gyfradd twf mewn cynhyrchiant a welwyd rhwng 1990 a 2007 wedi parhau, gallai fod wedi cynhyrchu incwm gwirioneddol cyfartalog o ymhell dros ugain y cant yn uwch na'r lefelau ar hyn o bryd a darparu'r adnoddau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus gwell ac ehangach.

Dim ond hyn a hyn o ddealltwriaeth sydd o'r rhesymau dros y gyfradd gymharol wael o dwf mewn cynhyrchiant yng Nghymru a'r DU ers tua 2008. Mae'n nodwedd sy'n gyffredin i lawer o wledydd datblygedig eraill, er bod hynny i raddau llai na'r DU yn gyffredinol.

Un esboniad posibl am y profiad cyffredin ar draws gwledydd yw y gallai'r gyfradd arloesi fod wedi arafu. Efallai hefyd fod llawer o ddatblygiadau arloesol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar ffurf technolegau sy'n darparu profiadau newydd yn uniongyrchol i bobl mewn ffordd nad yw'n cael ei hadlewyrchu'n llawn ym mhriadau'r farchnad.

Posibilrwydd arall yw bod amrywiaeth o dechnolegau newydd, yn enwedig ym maes deallusrwydd artiffisial, wrthi'n cael eu mabwysiadu, ond gyda "chosb" sy'n adlewyrchu costau trosiannol a gwrthdaro, ac felly rhywbeth dros dro yw hyn.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae perfformiad cynhyrchiant yn y DU wedi bod yn arbennig o wael dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â gwledydd datblygedig eraill. Un ffactor a allai fod wedi chwarae rôl yw'r lefel isel o fuddsoddiad busnes yn y DU. Gallai'r broblem hirdymor hon fod wedi gwaethygu dros y degawd diwethaf, yn gyntaf oherwydd presenoldeb sector ariannol mawr sy'n dal yn "dioddef" yn sgil yr argyfwng ariannol, yna wrth i Lywodraeth y DU osod mesurau "cyni" llym, ac yn olaf


oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â refferendwm yr UE a phontio i berthynas fasnachu newydd gyda'r UE.

Mae cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth y DU - yn bennaf y penderfyniad i symud i drefniannau costau traul llawn yn barhaol – wedi eu cynllunio i gymell mwy o fuddsoddiad busnes. Fodd bynnag, fel datgan yr OBR, mae'r gostyngiad cysylltiedig a ymrwymwyd iddo mewn buddsoddiant cyhoeddus yn fwy na gwrthbwysio effaith y mesur hwn a disgwylir i fuddsoddiad net fod yn is o ganlyniad.

Tan yn ddiweddar, roedd lefel gymharol isel o ymchwil a datblygu yn y DU wedi cael ei nodi fel esboniad posibl o berfformiad gwael y DU o ran cynhyrchiant. Fodd bynnag, mae'r ONS wedi gwneud diwygiadau mawr iawn ar i fyny i'w amcangyfrifon o wariant ymchwil a datblygu, i'r fath raddau ei bod hi'n ymddangos bellach bod gan y DU lefel gwariant sy'n agos i gyfartaledd yr OECD.

Gallai lleihad mewn dynamiaeth busnesau gyfrannu o bosibl at arafu twf mewn cynhyrchiant. Mae newid yn y sector yn digwydd drwy broses lle mae rhai cwmnïau'n lleihau neu'n cau a'r swyddi a gollir yn cael eu disodli gan swyddi newydd mewn cwmnïau sy'n agor neu'n ehangu. Mae'r "trosiant" parhaus hefyd yn sbardun allweddol i hwyluso twf mewn cynhyrchiant wrth i gwmnïau mwy cynhyrchiol ddisodli rhai llai cynhyrchiol. Mae Siart 19 yn dangos cyfraddau llif cyflogaeth blynyddol o'r broses o gwmnïau'n agor, yn ehangu, yn lleihau, ac yn cau.

Siart 19. Cyfraddau llif cyflogaeth, Cymru, 2002-2023



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.


Mae Siart 19 yn dangos nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u colli bob blwyddyn fel cyfran o gyfanswm y swyddi. Mae'r data yn y siart yn dangos dwy nodwedd hollbwysig. Yn gyntaf, mae cyfradd y trosiant yn ymddangos yn uwch nag y byddai llawer o bobl yn ei ddisgwyl. Yn y blynyddoedd mwy diweddar, collir tua naw y cant o swyddi bob blwyddyn, gyda nifer tebyg yn cael ei greu. Mae hyn yn cyfateb i fwy

na 2,000 o swyddi'n cael eu colli a'u creu bob wythnos yng Nghymru. Yn ail, gostyngodd cyfradd y trosiant yn sylweddol dros y cyfnod hyd at ganol y 2010au. Mae data'r DU yn dangos tuedd debyg ac mae ymchwil yn dangos y gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r gyfradd is o dwf mewn cynhyrchiant dros y cyfnod.²²

Lefelau cynhyrchiant yng Nghymru

Nid yn unig bod twf mewn cynhyrchiant wedi bod yn araf yn y blynyddoedd diwethaf, mae *lefelau* cynhyrchiant yng Nghymru yn gymharol isel, hyd yn oed yng nghyddestun y DU: ymysg gwledydd a rhanbarthau'r DU, yn y cyfnod diweddaraf, dim ond yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yr oedd cynhyrchiant llafur fesul awr yn is (gweler Siart 20).

Siart 20: Cynhyrchiant llafur: GVA fesul awr a weithir (y DU=100)



Ffynhonnell: SYG

Yn groes i berfformiad gweddol dda Cymru dros y tymor hwy o ran cyflogaeth, nid yw'r bwllch mewn cynhyrchiant llafur rhwng Cymru a'r DU wedi newid rhyw lawer ers datganoli. Fodd bynnag, roedd y bwllch wedi ehangu yn y blynyddoedd cyn tua 2008, ond mae lleihau ers hynny. Mae'r cynnydd yn ystod y blynyddoedd diweddaraf lle mae data ar gael wedi bod yn eithaf calonogol.²³

²²Gweler, er enghraifft, ddadansoddiad diweddar gan y Resolution Foundation: [Ready for change - The Inquiry \(resolutionfoundation.org\)](https://www.resolutionfoundation.org/en/Insights/Ready-for-change-The-Inquiry)

²³ Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ystyried data ar gyfer y blynyddoedd diweddaraf oherwydd gallai ffactorau sy'n ymwneud â'r pandemig fod wedi effeithio arno. Er enghraifft, mae'n ymddangos


Mae llawer o'r ffactorau sy'n egluro perfformiad cymharol wan Cymru o ran cynhyrchiant llafur yn cael eu deall yn weddol dda ac maen nhw wedi cael eu trafod mewn adroddiadau blaenorol.

Yn gyntaf, *nid* yw'r cymysgedd o ddiwydiannau yng Nghymru yn esbonio'r lefelau cynhyrchiant llafur isel yng Nghymru. Ar ben hynny, mae cynhyrchiant llafur mewn gweithgynhyrchu, sy'n gyfrifol am gyfran fwy o'r economi yng Nghymru na gweddill y DU, yn cymharu'n eithaf da. Felly, mae'r diffyg yn bodoli'n bennaf yn y sector gwasanaethau (sy'n fwy o lawer).

Mae Siart 21 yn dangos cynhyrchiant yng Nghymru yn ôl sector o'i gymharu â'r DU ac eithrio Llundain. Mae'r data a ddangosir yn cynrychioli cyfartaledd y blynyddoedd 2017 i 2019, oherwydd gallai'r data ar gyfer y blynyddoedd dilynol fod wedi cael ei ystumio dros dro gan ffactorau sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'r siart hefyd yn dangos pa sectorau sy'n cael eu gorgynrychioli a'u tangynrychioli yng Nghymru, ac mae'n rhoi syniad o dwf cymharol sectorau dros y cyfnod rhwng 2010 a'r flwyddyn 2019 cyn y pandemig. Er enghraifft, gellir gweld bod cynhyrchiant yn uwch yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru nag yng ngweddill y DU ac eithrio Llundain, ei fod yn un o'r sectorau mwy, a bod nifer y swyddi yn y sector wedi gostwng dros y cyfnod a ddangosir.

Siart 21: Cynhyrchiant (allbwn fesul awr a weithir) yng Nghymru o'i gymharu â'r DU ac eithrio Llundain, (%) 2017 i 2019.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau:

Mae'r echelin lorweddol yn dangos cynhyrchiant y sector yng Nghymru o'i gymharu â'r DU ac eithrio Llundain. Mae cynhyrchiant yn cael ei fesur yn ôl GVA fesul pob awr a weithiwyd. Mae'r echelin

bod cynnydd sydyn mewn cynhyrchiant yng Ngogledd Iwerddon yn adlewyrchu gostyngiad mawr ac anesboniadwy mewn oriau gwaith a gofnodwyd.

fertigol yn dangos a yw pob sector yng Nghymru wedi'i orgynrychioli neu ei dangynrychioli o ran swyddi, o'i gymharu â'r DU ac eithrio Llundain.

Swigod du: mae nifer y swyddi wedi tyfu'n uwch na chyfartaledd yr holl ddiwydiannau ar gyfer 2009-19 (+6.5 y cant).

Swigod llwyd: mae nifer y swyddi wedi tyfu, ond gan lai na chyfartaledd yr holl ddiwydiannau.


Swigod coch: mae nifer y swyddi wedi gostwng dros y cyfnod.

Mae diamedr pob swigen yn gymesur â maint y sector.

Yn gyffredinol, mae'r siart yn dangos, o'i gymharu â gweddill y DU ac eithrio Llundain, nad yw Cymru, ar y cyfan, yn cael ei gorgynrychioli mewn sectorau cynhyrchiant isel: er bod Cymru yn wir yn cael ei gorgynrychioli mewn rhai sectorau cynhyrchiant isel, mae'n cael ei thangynrychioli mewn sectorau eraill. Y broblem fwy cyffredinol yw cynhyrchiant cymharol isel ar draws sectorau, gyda gweithgynhyrchu yn eithriad amlwg.

Fel y nodwyd uchod, mae ymchwil wedi dangos y gall lefelau isel o fuddsoddiad busnes fod yn ffactor allweddol wrth egluro lefelau cynhyrchiant cymharol wael y DU o'i gymharu â nifer o economïau datblygedig eraill. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y mae buddsoddiad yn sbardun hanfodol i gynhyrchiant isel, yn hytrach nag yn adlewyrchiad o ffactorau mwy sylfaenol eraill. Mae data arbrofol ar gyfer Cymru, a ddangosir yn Siart 22, yn dangos y gallai buddsoddiad busnes yng Nghymru fod yn gymharol isel hyd yn oed yng nghyd-destun y DU, ond yn debyg i sawl rhanbarth yn Lloegr.

Siart 22: Cyfran y buddsoddiad o'r GVA (%), ac eithrio gweithgareddau'r sector cyhoeddus yn bennaf, ac anheddau, cyfartaledd blynyddol 2010-2019



Ffynhonnell: Ystadegau arbrofol y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Sylwer: Y mesur yw Ffuriant Cyfalaf Sefydlog Gros (GCFC) llai GCFC mewn Gweithgareddau Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, Addysg, Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol, ac mewn anheddau, o'i gymharu â GVA llai GVA mewn Gweithgareddau Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, Addysg, Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol.

Mae'r data yn Siart 22 yn dangos er bod buddsoddiad busnes yng Nghymru yn gymharol isel, mae'r gwahaniaethau â'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr yn fach. Dylid nodi hefyd na roddir dim ystyriaeth i unrhyw wahaniaethau rhwng rhanbarthau o ran costau buddsoddi. Mae'n bosibl hefyd y bydd amrywiadau yn y cymysgedd o ddiwydiannau mewn rhanbarth yn dylanwadu ar lefelau buddsoddi. Am y rhesymau hyn, ac oherwydd y bydd lefelau buddsoddi yn eu tro yn adlewyrchu ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar broffidioldeb posibl buddsoddiadau, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant ynghylch rôl lefel y buddsoddiad wrth siapio perfformiad cynhyrchiant cymharol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r data yn y siart yn dangos unrhyw gysylltiad clir â'r amrywiad mewn cynhyrchiant llafur ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae gwariant ymchwil a datblygu - math penodol o fuddsoddi - yn is yng Nghymru nag ar draws gwledydd a rhanbarthau eraill y DU. Er bod arloesi yn sbardun allweddol ar gyfer twf, mae gwariant ymchwil a datblygu yn ddangosydd amherffaith o arloesi. Mae llawer ohono i'w weld mewn sectorau penodol, tra bo "bwlch" cynhyrchiant Cymru yn eang. Ar ben hynny, nid yw gwariant ymchwil a datblygu mor dda am ddal y broses o ledaenu ac amsugno datblygiadau arloesol. Mae ymchwil gan yr OECD wedi dangos bod lleadaenu ac amsugno datblygiadau arloesol yn bwysicach na darganfod, yn enwedig i ranbarthau nad ydynt ar y ffin.²⁴ Ar ben hynny, canfu asesiad o gydgyfeirio ymhlith rhanbarthau'r UE nad oedd mesurau a oedd yn cynyddu gwariant ymchwil a datblygu yn llwyddo i gynyddu twf.²⁵

Mae ymchwil yn dangos, yn gyffredinol, mai'r ffactor pwysicaf sy'n sbarduno'r gwahaniaethau mewn lefel cynhyrchiant a thâl dros yr hirdymor yw addysg a sgiliau.²⁶ Mae gan weithlu Cymru lefelau cymwysterau sy'n is na'r rhai ar gyfer de Lloegr a'r Alban, er eu bod yn debyg i nifer o rannau o Loegr (neu ychydig yn uwch hyd yn oed). De Lloegr a'r Alban yw'r rhannau o'r DU sydd â'r lefelau cynhyrchiant uchaf.


Mae Cymru bron yn sicr hefyd yn gweld rhywfaint o "gosb" cynhyrchiant yn sgil ei phatrwm aneddiadau gwasgaredig ac oherwydd nad oes cytref fawr iawn. Mae Siart 23 yn dangos bod gan Gymru, o'i chymharu â rhanbarthau Lloegr, gyfran uchel o'i phoblogaeth sy'n byw y tu allan i aneddiadau mwy a chyfran gymharol uchel sy'n byw mewn ardaloedd prin eu poblogaeth.

²⁴ Gweler: [Promoting Growth in All Regions | OECD Regional Development Studies | OECD iLibrary \(oecd-ilibrary.org\)](https://oecd-ilibrary.org)

²⁵ Gweler: [Does R&D Expenditure Boost Economic Growth in Lagging Regions? | Social Indicators Research \(springer.com\)](https://www.springer.com)

²⁶ Gweler ymchwil ar gyfer Adolygiad Deaton Review o Anghydraddoldeb: [Education inequalities | Inequality: the IFS Deaton Review](https://www.ifs.ac.uk/research-and-policy/education-inequalities)

Siart 23: Dangosyddion crynodiad poblogaeth yng Nghymru a rhanbarthau Lloegr



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau: Mae'r echelin lorweddol yn dangos cyfran y boblogaeth y tu allan i aneddiadau a ddiffiniwyd gan y SYG o 100,000 o bobl neu fwy. Mae'r echelin fertigol yn dangos cyfran y boblogaeth mewn ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth a ddiffiniwyd gan y SYG.

Mae'n werth nodi (Gweler Siart 21 uchod), fod bwlch cynhyrchiant Cymru wedi'i grynhoi yn y sector gwasanaethu. Mae ymchwil wedi dangos bod cynhyrchiant mewn gweithgynhyrchu yn llai dibynnol ar batrymau anheddu nag ar wasanaethau.²⁷

Ar draws y DU, mae rhai o'r cytrefi mwy yn gynyddol wedi cefnogi creu swyddi â lefel uchel o gynhyrchiant a chyflogau, yn enwedig yn y sector gwasanaethau y gellir eu masnachu.²⁸ Mae ymchwil gan yr OECD yn dangos bod sector llwyddiannus o wasanaethau y gellir eu masnachu, yn ei dro, yn darparu sylfaen gref i gefnogi busnesau sy'n darparu gwasanaethau a ddefnyddir yn lleol.

Mae'n bosibl bod perfformiad o ran cynhyrchiant mewn rhannau o Gymru yn cael ei lesteirio gan berifferoldeb cymharol a chysylltedd cyfyngedig yn sgil hynny. Efallai fod problemau hefyd yn codi o ddiffyg cwmnïau mawr cynhenid; o sgiliau rheoli gwan; ac, efallai, o gyfyngiadau ar fynediad at gyllid.

Dim ond mesur rhannol o gynhyrchiant yw cynhyrchiant llafur gan nad yw'n ystyried lefel y cyfalaf a ddefnyddir, ac felly mae'n gallu bod yn ddangosydd camarweiniol o'r effeithlonrwydd cymharol wrth ddefnyddio mewnbynnau.

Mae cynhyrchiant pob ffactor (TFP) yn asesu cynhyrchiant drwy ystyried pob mewnbyn. Fodd bynnag, mae mesur TFP yn heriol a dim ond yn ddiweddar y mae

²⁷ Gweler: Graham, D: Agglomeration, Productivity and Transport Investment: [Agglomeration, Productivity and Transport Investment on JSTOR](#)

²⁸ Serch hynny, dylid nodi ei bod yn ymddangos bod llawer o ddinasoedd mawr gogledd Lloegr hefyd yn tanberfformio wrth gymharu eu cynhyrchiant â dinasoedd mawr mewn gwledydd eraill.


amcangyfrifon swyddogol wedi bod ar gael ar lefel is na'r DU. Cafodd yr amcangyfrifon hyn eu trafod yn adroddiad y llynedd. Yn fras, mae perfformiad cymharol TFP Cymru yn ymddangos yn debyg i'w berfformiad o ran cynhyrchiant llafur: hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y ffactorau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant ar lefel Prydain, canfuwyd bod cynhyrchiant llafur a TFP yn is yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill Prydain – a bod y bylchau yn eithaf mawr ac yn debyg ar gyfer cynhyrchiant llafur a TFP.

Mae'r ffaith bod y bwloch rhwng Cymru a'r rhan fwyaf o wledydd a rhanbarthau eraill yn bodoli, boed hyn yn cael ei fesur o ran cynhyrchiant llafur neu TFP, yn awgrymu bod gwahaniaethau yn lefel y buddsoddiad, fel y dangosir yn Siart 22, yn annhebygol o fod yr unig ffactor, neu hyd yn oed y prif ffactor sy'n sbarduno bwloch cynhyrchiant yng Nghymru gyda'r DU. Wrth gwrs, mae'r lefelau buddsoddi sydd, i bob golwg, yn ddiffygiol ar draws y DU yn wir hefyd am Gymru, wrth gymharu â gwledydd eraill.²⁹

Er mai cynhyrchiant yw'r prif ffactor sy'n sbarduno cyflogau dros yr hirdymor, gall ffactorau eraill hefyd chwarae rhan wrth esbonio gwahaniaethau mewn cyflogau ar draws ardaloedd a thros amser. Mae Siart 24 yn dangos yr enillion wythnosol cymharol ar gyfer Cymru a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU. Mae'r siart yn dangos y canlyniadau ar gyfer canolrif enillion, sy'n cynrychioli enillion y cyflogai ar bwynt canol dosbarthiad enillion – y cyflogai "nodweddiadol".

²⁹ Gweler yn benodol: [Cracking the Productivity Code: An international comparison of UK productivity \(lse.ac.uk\)](http://lse.ac.uk)

Siart 24: Canolrif yr enillion wythnosol ar gyfer oedolion llawn amser, 2023 (DU=100)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Yn gyffredinol, mae sefyllfa gymharol gwledydd a rhanbarthau yn y siart o ran enillion yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn cynhyrchiant llafur ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r amrywiad mewn enillion yn sylweddol is. I raddau helaeth, mae hyn oherwydd mai'r mesur a ddefnyddir ar gyfer enillion yw'r canolrif, ac nid yw hyn yn ystyried gwerthoedd eithafol ac felly ddim yn adlewyrchu cyfraniad swyddi sydd ag enillion a chynhyrchiant uchel iawn.³⁰ Ar ben hynny, mae cyflogau mewn sawl sector yn cael eu gosod ar sail y DU gyfan (er yn aml gyda phremiwm Llundain), a fydd yn cyfyngu ar wahaniaethau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Gweithio o bell a gweithio hybrid

Fel y trafodwyd mewn adroddiadau blaenorol, fe wnaeth y pandemig gyflymu'r tueddiad tuag at weithgarwch economaidd "o bell", yn enwedig gweithio o bell, gyda llawer o gyflogwyr yn dweud eu bod yn bwriadu symud yn barhaol i fodel gweithio hybrid. Nid yw graddfa'r newid parhaol yn glir ar hyn o bryd, ond mae'n ymddangos bod lefel y gweithio hybrid wedi sefydlogi ymhell uwch ben y lefelau cyn y pandemig.


Mae gweithio gartref yng Nghymru wedi mwy na dyblu rhwng chwarter olaf 2019 a chwarter cyntaf 2022 (y data diweddaraf sydd ar gael), o tua 12 y cant o gyfanswm y

³⁰Y mesur a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchiant yw'r cymedr, sy'n adlewyrchu presenoldeb swyddi o'r fath.

boblogaeth sy'n gweithio i tua 30 y cant. Yn yr un modd, yn y DU roedd y ffigurau gweithio gartref wedi mwy na dyblu hefyd i oddeutu 30 y cant.

Yn y chwarter diweddaraf sydd ar gael, roedd cyfraddau gweithio gartref yn amrywio ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU (gweler Siart 25).

Siart 25: Pobl yn gweithio gartref yn bennaf, mis Ionawr i fis Mawrth 2022 (%)



Ffynhonnell: SYG

Mae'r siart yn dangos bod cyfran y gweithwyr cartref yng Nghymru yn debyg i'r DU drwyddi draw, a Llundain yw'r rhanbarth yn Lloegr sydd â'r gyfran uchaf, a Gogledd Iwerddon yw'r wlad sydd â'r gyfran isaf. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu'n rhannol y gwahaniaethau mewn cyfansoddiad galwedigaethol, gyda galwedigaethau proffesiynol â'r gyfran fwyaf o weithwyr cartref.

Ar ben hynny, yn y cyfnod diweddaraf, dywedodd dros 11 y cant o bobl yng Nghymru nad oeddent yn gweithio gartref gan amlaf, eu bod yn gweithio gartref o leiaf un diwrnod yr wythnos.

Mae ymchwil ddiweddar, er ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar UDA, yn awgrymu bod y newidiadau'n dod yn rhan sefydlog ac y gallent gynyddu mwy yn y dyfodol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn dangos, er bod gweithio o bell yn gallu lleihau cynhyrchiant llafur, y gall hyn fod yn fwy na gwrthbwysio arbedion ar fewnbynnau eraill, yn enwedig eiddo, fel nad yw cynhyrchiant pob ffactor o reidrwydd yn cael ei

leihau. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod gweithio hybrid yn lleihau cynhyrchiant llafur.³¹

Gallai cynnydd mewn gweithio o bell greu cyfleoedd i bobl â sgiliau gwerthfawr nad oeddent mewn gwaith yn flaenorol, a hynny, o bosibl, oherwydd rhesymau fel anabledd, amgylchiadau teuluol neu bellter daearyddol. Mae rhai arwyddion yn y data diweddar am y farchnad lafur sy'n dangos y gallai fod effeithiau manteisiol o'r fath, o leiaf mewn perthynas â menywod a oedd yn anweithredol o'r blaen oherwydd eu bod yn gofalu am gartref y teulu. Gallai gweithio o bell helpu i ddenu pobl i ardaloedd sydd wedi'i chael hi'n anodd creu swyddi yn y gorffennol, a chadw'r bobl hynny yno.

Gallai cynnydd mewn gweithio o bell greu risg o gynyddu rhai anghydraddoldebau hefyd. Ar un llaw, gallai pobl ar gyflogau is mewn gwasanaethau a ddefnyddir yn lleol golli gwaith, ac ar y llaw arall gallai gwelliannau mewn llesiant pobl sy'n gweithio o bell gronni i bobl sy'n dueddol o fod mewn swyddi sy'n talu'n well.

Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod newid ar waith, gyda rhywfaint o weithgarwch economaidd a swyddi mewn sectorau sy'n darparu gwasanaethau i gyflogeion yn lleihau mewn ardaloedd trefol dwys, ac yn cynyddu mewn rhai ardaloedd maestrefol.³² Nid yw'r goblygiadau yn glir eto o ran y galw am dai, eiddo masnachol (gan gynnwys swyddfeydd) a defnyddio trafndiaeth, ond mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod rhai effeithiau negyddol wedi bod ar werth eiddo swyddfeydd yn barod.³³

Newid demograffig yng Nghymru

Mae gan faint a strwythur poblogaeth Cymru oblygiadau economaidd a chyllidol pwysig.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod cysylltiad rhwng poblogaeth sy'n heneiddio a thwf arafach mewn cynhyrchiant, ond nid yw'n profi hyn i'r carn. Er enghraifft, gallai lefel gyfartalog y cynilion ar draws poblogaeth sy'n hŷn fod yn is, gan leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi.³⁴ A gall poblogaeth hŷn awgrymu cyfradd arafach o addasu i'r newid mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â thechnoleg newydd.

Bydd cyfran uwch o bobl hŷn yn rhoi mwy o faich ar rai gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynyddu eu costau. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio ar y sylfaen drethu hefyd. Bydd yr effeithiau'n dibynnu ar sut mae cyfranogiad yn y farchnad lafur a lefelau incwm yn amrywio yn ôl oedran.

³¹ [The Evolution of Working from Home | Sefydliad Stanford er Ymchwil Polisi Economaidd \(SIEPR\)](#)

³² [Remote working and the new geography of local service spending | CEPR](#)

³³ Gweler, er enghraifft: [Working from home and corporate real estate | CEPR](#)

³⁴ Mae cynilion fel arfer yn cynyddu dros y cyfnod i ganol oed, ac yna'n gostwng gydag oedran. Fodd bynnag, bydd effaith y cynnydd yn y boblogaeth ar gynilo yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys llwybr penodol y newid demograffig a newidiadau yn hyd bywyd gwaith.

Yng Nghymru, poblogaeth sy'n pennu'r dyraniad blynyddol o gyllid ychwanegol i grant bloc Llywodraeth Cymru o dan fformiwla Barnett. Bydd twf cymharol is ym mhoblogaeth Cymru yn arwain at lefelau is o adnoddau ychwanegol. Ar y llaw arall, bydd twf is mewn poblogaeth yn arwain at lai o alw am rai gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, oherwydd bod "sylfaen" y grant bloc yn cael ei throsglwyddo o'r flwyddyn flaenorol, po leiaf yw'r boblogaeth y mwyaf yw lefel y gwario y pen.³⁵

Ar ben hynny, bydd maint poblogaeth Cymru yn dylanwadu ar lefel y refeniw a gynhyrchir gan drethi datganoledig Cymru.

Yn fwy eang, gallai lleihad yn niferoedd a/neu gyfran grwpiau oedran iau effeithio ar hyfywedd, ac efallai hyd yn oed hyfywedd economaidd, ardaloedd yr effeithir arnynt yn benodol, gyda'r potensial am ddirywiad os bydd lleoedd yn cael eu hystyried yn rhai anneniadol fel lleoliadau preswyl.


Mae'r data poblogaeth o Gyfrifiad 2021 wedi taflu goleuni ychwanegol ar dueddiadau a rhagolygon diweddar demograffeg Cymru.³⁶

Mae'r data hwn yn dangos, dros y deng mlynedd ddiwethaf, bod twf poblogaeth yng Nghymru wedi bod yn llai nag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon nac unrhyw ranbarth yn Lloegr (gweler siart 26).

³⁵ Mae effaith y boblogaeth ar gyllid cymharol yn dueddol o wrthbwysu effaith "gwasgfa Barnett". Y rheswm am effaith gwasgfa Barnett yw bod cyfradd y twf a gynhyrchir gan fformiwla Barnett yn is nag y mae ar gyfer gwariant cymharol yn Lloegr.

³⁶ Cafodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar gyfer 2022 eu rhyddhau ar 23 Tachwedd 2023, yn rhy hwyr i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni fyddai'r amcangyfrifon hyn yn newid y dadansoddiad.

Siart 26: Newid mewn poblogaeth 2011 i 2021, %




Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

Mae'r Cyfrifiad wedi cadarnhau bod gan Gymru gyfran uwch o'r boblogaeth dros 65 oed nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU, ac eithrio De-orllewin Lloegr.

Yng Nghymru, yn debyg i wledydd a rhanbarthau eraill y DU, mae cyfran y boblogaeth sydd dros 65 oed wedi cynyddu ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y boblogaeth sydd rhwng 16 a 64 oed wedi gostwng yng Nghymru, fel y mae ar draws y DU. Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr, gostyngodd nifer absoliwt y bobl yng Nghymru rhwng 16 a 64 oed hefyd (bron i 2½ y cant). Gweler Siart 27.


Siart 27: Newid yn y boblogaeth yn ôl grŵp oedran, 2011-21



Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

Yn debyg i nifer o wledydd datblygedig eraill, mae'r gyfradd ffrwythlondeb yng Nghymru wedi bod ymhell islaw'r gyfradd gyfnewid am nifer o flynyddoedd – a thros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod islaw cyfradd Lloegr. Mae cyfradd ffrwythlondeb Cymru yn cael ei dangos ar Siart 28.

Siart 28: Cyfradd ffrwythlondeb



Ffynhonnell: SYG

Dros y tymor hir, mae cynnydd mawr wedi bod mewn disgwyliad oes yng Nghymru, ond mae'r gyfradd gwelliant wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf – gan gynnwys y cyfnod cyn pandemig Covid. Gwelir yr un patrwm ar draws gweddill y DU ac yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill, ond mae'n bosibl ei fod wedi sefydlogi i raddau mwy yn y DU yn ddiweddar.

Mae maint cyffredinol y boblogaeth yng Nghymru yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo. Yn ddiweddar, mae nifer y genedigaethau yng Nghymru wedi bod yn is na nifer y marwolaethau. Hefyd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae mudo net (o rannau eraill o'r DU ac o wledydd eraill) wedi bod yn bositif, gan wrthbwysu'r gostyngiad naturiol yn y boblogaeth ac arwain at gynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth Cymru.

Dim ond ar gyfer mudo mewnol y mae dadansoddiad o oedran mudwyr ar gael. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae poblogaeth Cymru wedi cynyddu yn y grwpiau oedran iau a hŷn yn sgil mudo rhwng Cymru a gweddill y DU. Mae'r cynnydd net yn y grwpiau oedran iau wedi bod yn yr ystod oedran 0-16.


Mae amcanestyniadau poblogaeth yn ansicr yn eu hanfod ac yng Nghymru, byddant yn sensitif iawn i dybiaethau ynghylch patrymau mudo yn y dyfodol, sy'n anodd eu rhag-weld. Fodd bynnag, os bydd y cyfraddau ffrwythlondeb yn aros yn debyg i'r lefelau presennol, bydd methu cynnal lefelau mewnffudo yn arwain yn anochel at ostyngiad hirdymor yn y boblogaeth.

Yn gyffredinol, mae'r amcanestyniadau'n dangos, yn ystod y cyfnod hyd at 2040, bydd cyfran gynyddol o grwpiau oedran hŷn, gostyngiad graddol yn y grŵp oedran 16-64, a gostyngiad mwy sydyn yn y grŵp oedran 0-15. Mae'r tueddiadau hyn yn debyg i'r rhai a ragwelir ar gyfer rhannau eraill o'r DU, ond o sylfaen lle mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na'r rhan fwyaf o'r DU.

Mae cymharu data o'r cyfrifiad diweddaraf â chanlyniadau'r cyfrifiad blaenorol yn 2011 yn dangos gwahaniaethu sylweddol yng nghyfradd y newid mewn poblogaeth ar draws Cymru. Rhwng 2011 a 2021, roedd y boblogaeth wedi gostwng yn y Gogledd-orllewin – yn ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Cheredigion. Roedd wedi gostwng ym Mlaenau Gwent, Caerffili ac Abertawe hefyd. Nid oedd llawer o newid yn y boblogaeth ym Merthyr, Powys na Wrecsam. Roedd y boblogaeth wedi cynyddu mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill ac yn benodol y rhai sy'n "haws eu cyrraedd", gan gynnwys tuag at ben dwyreiniol coridor yr M4 yng Nghymru, ac yng Nghasnewydd yn enwedig.

Mae Siart 29 yn dangos, heb fawr o syndod, bod cysylltiad rhwng newid mewn poblogaeth a chyfradd adeiladu anheddau newydd. Er bod cyfeiriad yr achosiad yn aneglur, ac yn mynd y ddwy ffordd fwy na thebyg, mae'r data i ryw raddau yn cefnogi'r safbwynt y gall adeiladu anheddau ynddo'i hun hybu twf mewn poblogaeth – pan fydd y gwaith adeiladu hwn yn digwydd mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uchel o leiaf.

Siart 29: Newid mewn poblogaeth a chynnydd yn nifer yr anheddau, 2011 i 2021



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 a chyfrifiadau Llywodraeth Cymru.

Er bod tueddiadau poblogaeth yn y dyfodol yn ansicr yn eu hanfod, fel y nodwyd, mae'n ymddangos yn rhesymol dod i rai casgliadau petrus:

- Mae posibilrwydd go iawn o ostyngiad cyson yn y boblogaeth, yn enwedig ymysg y boblogaeth oedran gweithio a phlant, gyda risg gysylltiedig i ffyniant a'r sylfaen drethu.
- Bydd yr henoed yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r boblogaeth.
- Bydd dibyniaeth gynyddol ar fewnfudo i gynnal y boblogaeth – ond oherwydd y bydd poblogaeth nifer o wledydd eraill yn gostwng hefyd, a'r gwledydd yn dod yn fwy cefnog o bosibl, gallai'r cyfraddau mudo ddisgyn.
- Efallai y bydd y cynnydd mewn gweithgarwch economaidd "o bell" a'r effeithiau cysylltiedig (ee ar brisiau eiddo) yn effeithio ar symudiadau'r boblogaeth yn y DU, ond mewn ffyrdd sy'n anodd eu hasesu ar hyn o bryd.

Mae'n anodd asesu goblygiadau ehangach newidiadau o'r fath hefyd. Un fantais bosibl yw lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â phoblogaeth. Gallai'r goblygiadau eraill gynnwys y canlynol:

- Pwysau cynyddol ar gostau yn y sector cyhoeddus. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn gofal cymdeithasol oherwydd mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod costau iechyd yn fwy cysylltiedig â chyfnod olaf mewn bywyd, yn hytrach nag oedran cronolegol³⁷, a bod ffactorau eraill yn effeithio ar gostau iechyd i raddau mwy nag y mae demograffeg. Hefyd, nid yw'n glir y bydd Cymru'n wynebu risgiau cyllidol uwch yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio na rhannau eraill o'r DU. Er bod gan Gymru eisoes gyfran uwch o bobl hŷn yn ei phoblogaeth na'r DU, rhagwelir newidiadau tebyg yn y gyfran wrth i'r boblogaeth heneiddio yn y dyfodol.
- Bydd patrymau sy'n newid yn y galw am nwyddau a gwasanaethau mewn cysylltiad â heneiddio yn effeithio ar batrymau cyflogaeth. (Gallai hyn effeithio'n benodol ar rai gwasanaethau cyhoeddus, wrth gwrs, ond hefyd ar weithgareddau hamdden a gwasanaethau gofal a ddarperir yn breifat.)
- Bydd y pwysau ar rai agweddau ar y system addysg yn newid ac yn lleihau fwy na thebyg, ond efallai y daw dysgu gydol oes yn fwy a mwy pwysig.
- Mae goblygiadau posibl i'r defnydd o'r Gymraeg yn sgil gostyngiad ym mhoblogaeth ardaloedd mwy gwledig.
- Efallai y bydd y problemau sy'n codi yn sgil newidiadau mewn lefelau poblogaeth yn cronni'n benodol mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol.
- Mae polisïau cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd, darpariaeth gofal plant a pholisïau i weithwyr hŷn oll yn debygol o gael eu blaenoriaethu.

Gallai'r ddibyniaeth gynyddol ar fewnfudo a phwysigrwydd polisïau sy'n helpu i ddenu a chadw mudwyr "priodol" arwain at oblygiadau i bolisïau tai, ac i feysydd polisi eraill, gan gynnwys trafndiaeth.


³⁷Mewn geiriau eraill, os bydd pethau eraill yn gyfartal, bydd costau iechyd ychwanegol yn debyg i bobl sy'n byw i 80 ac 85 oed, fel ym mhob achos mae'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo yn ystod pum mlynedd olaf eu bywydau.

Rhagolygon cyllidol

Rhagolygon cyllidol tymor byr i ganolig y DU

Mae Siart 30 yn dangos rhagolwg mis Tachwedd 2023 yr OBR ar gyfer lefel fenthyca net y sector cyhoeddus.

Siart 30: Lefel Fenthyca Net y Sector Cyhoeddus, alldro a rhagolygon (y cant o GDP)



Ffynhonnell: OBR

Roedd benthycia bron i £20 biliwn yn is yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon na'r hyn a oedd yn rhagolwg yr OBR ym mis Mawrth, oherwydd, bron yn gyfan gwbl, bod mwy o dwf yn y derbyniadau. Mae'r derbyniadau hyn yn adlewyrchu chwyddiant ac enillion uwch yn bennaf. Mae'r OBR yn disgwyl i'r derbyniadau barhau i fod yn gryf yng ngweddill y flwyddyn, ond hefyd gwariant llawer uwch llog ar ddyledion sy'n adlewyrchu chwyddiant RPI uwch a'r Gyfradd Banc. O ganlyniad, cyn effaith y mesurau yn Natganiad yr Hydref, disgwylir y bydd lefel fenthyca net y sector cyhoeddus ar gyfer 2023-24 yn ei chyfanrwydd tua £16 biliwn (tua 14 y cant) yn is nag yn rhagolwg mis Mawrth.

Mae'r rhagolygon cyllidol tymor canolig hefyd wedi gwella o'i gymharu â mis Mawrth. Mae chwyddiant a gynhyrchir yn ddomestig ynghyd â throthwyon treth wedi'u rhewi yn cynyddu'r derbyniadau a ragwelir. Mae cyfraddau llog a chwyddiant uwch hefyd yn cynyddu gwariant lles a chostau llog dyledion. Fodd bynnag, nid yw chwyddiant uwch ynddo'i hun yn cynyddu gwariant adrannol a mathau eraill o wariant, er bod gwir werth gwariant o'r fath yn cael ei leihau'n sylweddol, wrth gwrs.

Mae'r gostyngiad mewn benthyca cyn mesurau 2027-28 mewn perthynas â rhagolwg mis Mawrth yr OBR yn adlewyrchu'n bennaf yr erydiad o bron i £20 biliwn yng ngwerth gwirioneddol gwariant adrannol.

Mae'r OBR yn nodi bod y Canghellor wedi dewis gwario bron pob un o'r gwelliannau rhagolwg yn y rhag-fesurau mewn benthyca rhwng 2023-24 a 2027-28 yn y mesurau a nodir yn natganiad yr hydref (gan gynnwys y gostyngiad mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a gwneud yr eithriad treth ar gyfer buddsoddi cyfalaf – “gosod fel treuliau llawn” – yn barhaol), sy'n golygu nad yw benthyca ar ôl y mesurau heb newid rhyw lawer.

Mae'r OBR yn asesu bod newidiadau treth a gyhoeddwyd yn Natganiad yr hydref yn lleihau'r baich treth 0.7 y cant o'r GDP, ond mae'n dal i godi bob blwyddyn i gyfradd uchel ers y rhyfel o 37.7 y cant o'r GDP erbyn 2028-29. Erbyn 2028-29, mae trothwyon sydd wedi'u rhewi yn arwain at bron i 4 miliwn o weithwyr ychwanegol yn talu treth incwm, 3 miliwn yn fwy yn cael eu symud i'r gyfradd uwch, a 400,000 yn fwy yn talu'r gyfradd ychwanegol.

Mae'r OBR yn rhagweld y bydd gwariant yn gostwng yn gyson fel cyfran o'r economi o 44.8 i 42.7 y cant o'r GDP dros gyfnod y rhagolwg, ond mae'n dal yn 3.1 y cant o'r GDP uwchlaw ei lefel cyn y pandemig. Mae taliadau llog dyledion yn disgyn o'r lefelau uchel iawn presennol wrth i chwyddiant RPI ostwng, ond maent yn parhau i fod un pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd ar ôl y rhyfel. Mae'r cyfraniad unigol mwyaf i'r gostyngiad mewn gwariant yn deillio o wariant adrannol yn gostwng o 19.2 i 18.1 y cant o'r GDP dros gyfnod y rhagolwg.

Er gwaethaf cynnydd o £4.1 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yn Natganiad yr hydref, mae chwyddiant uwch yn golygu bod gwir werth gwariant adrannol yn £19.1 biliwn yn is erbyn 2027-28 na rhagolwg mis Mawrth yr OBR. Mae cyfnod presennol yr Adolygiad o Wariant yn dod i ben yn 2024-25, a'r tu hwnt i hwn, mae gwariant adrannol yn dilyn dau gwmpas cyffredinol a osodwyd gan y Llywodraeth lle bydd gwariant o ddydd i ddydd yn tyfu 0.9 y cant y flwyddyn mewn termau real, ac y bydd gwariant cyfalaf yn sefydlog o ran arian parod.

Mae'r OBR yn nodi bod y gostyngiad o ran termau real mewn buddsoddiad cyhoeddus yn llawer mwy na'r cynnydd mewn buddsoddiad sector preifat y mae'n disgwyl ei weld o ganlyniad i wneud proses “gosod fel treuliau llawn” yn barhaol.

Ar sail y tybiaethau cyfyngol iawn hyn, mae'r OBR yn rhagweld y bydd benthyca'n gostwng yn gyson o 5.0 y cant o'r GDP eleni i 1.1 y cant o'r GDP erbyn 2028-29, sef y lefel isaf ers 2001-02. Rhagwelir y bydd dyled net sylfaenol y sector cyhoeddus (heb gynnwys Banc Lloegr) yn codi o 84.9 y cant o'r GDP y llynedd i uchafswm o 93.2 y cant o'r GDP yn 2026-27 ac wedyn yn gostwng ychydig yn y ddwy flynedd diwethaf i 92.8 y cant o'r GDP yn 2028-29.

Prif darged cyllidol Llywodraeth y DU yw cael dyled net y sector cyhoeddus (ac eithrio Banc Lloegr) i ostwng ym mlwyddyn olaf y rhagolygon (2028-29 yn y rhagolwg diweddaraf). Yn rhagolygon canolog yr OBR, mae'r rheol hon yn cael ei bodloni gan swm diogelu o £13.0 biliwn (0.4 y cant o'r GDP), i fyny o'r swm diogelu o £6.5 biliwn (0.2 y cant o'r GDP) yn rhagolygon mis Mawrth gyda'r flwyddyn darged yn 2027-28

Mae'r OBR yn nodi bod hyblygrwydd o £13.0 biliwn yn sylweddol is na'r cyfartaledd o £29.7 biliwn y mae'r Canghellor wedi'i ddal yn erbyn eu rheolau cyllidol ers 2010. Ar ben hynny, mae'r hyblygrwydd yn dibynnu ar weithredu'r cyfyngiadau llym tybiedig ar wariant adrannol, ac ar amrywiaeth o dybiaethau eraill nad ydynt o bosibl yn debygol iawn. Er enghraifft, mae rhagolwg yr OBR unwaith eto'n ymgorffori £6.2 biliwn o referniw ychwanegol yn 2028-29 o bolisi datganedig Llywodraeth y DU o gynyddu cyfraddau treth tanwydd yn unol â chwyddiant RPI a gwrthdroi'r toriad 5c 'dros dro'. Pe byddai cyfraddau, fel pob Canghellor ers 2011, yn cael eu cadw ar y gyfradd bresennol, yna byddai mwy na 43 y cant o'r hyblygrwydd yn 2028-29 yn cael ei ddileu ac ni fyddai dyled yn gostwng mwyach.

Mae targed atodol Llywodraeth y DU i gael lefel fenthyca net y sector cyhoeddus i ostwng yn is na 3 y cant o'r GDP yn 2028-29, yn cael ei fodloni yn rhagolygon canolog yr OBR. Mae'n cael ei gyflawni gan fwy o swm diogelu na'r mandad ariannol – £61.5 biliwn, neu 1.9 y cant o'r GDP – sydd wedi codi £22.3 biliwn ers mis Mawrth ymlaen.


Cymru – rhagolygon cyllidol dros y tymor byr i'r tymor canolig

Mae Datganiad yr hydref Llywodraeth y DU yn darparu dyraniadau ychwanegol bach i gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24 a 2024-25. O ganlyniad i'r sioc chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf, mae setliad Llywodraeth Cymru dros 3 blynedd cyfnod presennol yr adolygiad o wariant yn dal yn werth llai o lawer mewn termau real nag oedd wedi'i ddisgwyl ar adeg yr adolygiad yn 2021.

Caiff y datchwyddydd GDP ei ddefnyddio'n gyffredinol i ystyried chwyddiant wrth ddadansoddi gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r OBR yn cydnabod na fydd o bosibl yn adlewyrchu'n llawn y sioc chwyddiant mae llywodraethau yn y DU wedi'i hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r datchwyddydd GDP yn fesur ehangach o newidiadau mewn prisiau na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, ond nid yw'n cynnwys newidiadau ym mhrisiau nwyddau sy'n cael eu mewnfario sy'n cael eu cynnwys yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Fe wnaeth y pandemig effeithio hefyd ar y datchwyddydd GDP mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn annhebygol o adlewyrchu'r newidiadau mewn costau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus dros y ddwy flynedd diwethaf.

Felly, mae asesiad amgen wedi'i ddarparu gan y newid yn chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar y sail bod y datchwyddydd GDP a rhagolygon y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cynnig amrediad, mae setliad Llywodraeth Cymru dros gyfnod presennol yr adolygiad o wariant bellach yn werth oddeutu £3bn yn llai nag oedd y disgwyl yn 2021, a £1.3bn neu 7 y cant yn llai yn 2024-25 yn unig (Siart 31).

Siart 31: Gwahaniaeth yn setliad Llywodraeth Cymru mewn termau real ers mis Hydref 2021 gan ddefnyddio gwahanol fesurau o chwyddiant (£m, prisiau 2021-22)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Ar ôl gostwng tua 7 y cant mewn termau real yn ystod y degawd diwethaf, mae cynnydd diweddar yn golygu bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn 2023-24 tua 3 y cant yn uwch y pen o'i gymharu â 2010-11 mewn termau real, ond yn is nag yr oedd yn 2022-23. Mae'n aros o dan lefel 2022-23 yn 2024-25 (Siart 32).

Mae rhagolwg ar gyfer 2025-26 i 2028-29 hefyd wedi'i gynnwys yn Siart 31, gan ddefnyddio'r twf tybiedig yn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) cyffredinol ar gyfer adnoddau'r DU o ragolwg mis Tachwedd yr OBR i gynyddu DEL Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhagolygon ar gyfer treth ddatganoledig o Ragolwg Trethi Cymru'r OBR, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn dangos twf isel parhaus dros y blynyddoedd nesaf. Rhwng 2024-25 a 2028-29 bydd y gwariant o ddydd i ddydd y pen yn cynyddu llai na 0.5 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real ar sail debyg am debyg. Bydd gwariant y pen yn 2028-29 ychydig yn uwch mewn termau real nag yr oedd yn 2022-23.

Mae Llywodraeth y DU yn tueddu i ddiwygio i fyny ei chynlluniau ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd pan gynhelir adolygiadau o wariant, o gymharu â'r rhagdybiaethau a wnaed cyn i'r adolygiadau hynny gael eu cynnal. Fel y nodwyd yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Tachwedd 2023 yr OBR, ychwanegwyd 14% y flwyddyn ar gyfartaledd at wariant adrannol yn ystod Adolygiad o Wariant Tachwedd 2015, o gymharu â'r lefelau hynny a ragdybiwyd yn y flwyddyn cyn yr Adolygiad. Ar gyfer

Adolygiad o Wariant Hydref 2021, y swm ychwanegol oedd 8% y flwyddyn ar gyfartaledd. Er na fyddai'n ddoeth cynllunio ar y sail honno, gallai newidiadau tebyg i flynyddoedd y tu hwnt i 2024-25 olygu cynnydd gwerth rhwng £1.4bn a £2.4bn y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru o gymharu â'r lefelau sy'n defnyddio'r rhagdybiaethau uchod. Gallai hynny olygu bod gwariant o ddydd i ddydd yn cynyddu oddeutu 2% i 3% y pen y flwyddyn mewn termau real, yn hytrach na llai na 0.5% fel y dangosir uchod. Hyd yn oed ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, pan fo'n rhan o gyfnod adolygiad o wariant sydd eisoes yn bodoli fel 2024-25 yn yr achos hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gyffredinol wedi derbyn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn - yn aml tuag at ddiwedd y flwyddyn. Mae codiadau i'r setliad yn lliniaru'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond mae diffyg rhagdybiaethau gwariant tymor byr a chanolig dibynadwy gan Lywodraeth y DU yn ei gwneud yn heriol iawn cynllunio cyllideb yn effeithiol.

Siart 32: Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real y pen (£, prisiau 2022-23³⁸)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

³⁸ Gan eithrio cyllid ffermydd a newidiadau i IFRS16 nad ydynt wedi'u cynnwys mewn blynyddoedd blaenorol.

Rhagolygon cyllidol tymor hwy y DU

Cyd-destun


O dan y fframwaith cyllidol presennol, darperir oddeutu 80 y cant o gyllideb Llywodraeth Cymru ar ffurf grant bloc gan Lywodraeth y DU. Daw gweddill y gyllideb o drethi datganoledig ac Ardrethi Annomestig.

Pennir maint y grant bloc gan lefel gwariant llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn Lloegr (a Gogledd Iwerddon). Felly, mae penderfyniadau llywodraeth y DU ar lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus, a dyraniad y gwariant hwnnw ar draws rhaglenni, yn amlwg yn ffactorau hollbwysig wrth bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Er bod modd, yn y tymor byr, i ariannu gwariant llywodraeth y DU drwy fenthyca, mae cryfder y sylfaen drethu, a bennir gan dwf economaidd, a dewisiadau ynghylch lefel trethiant yn allweddol i bennu lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus dros yr hirdymor.

Er bod y darlun yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn gyffredinol mae lefel y trethiant yn y DU wedi bod yn gymharol isel o'i gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill. Gweler Siart 33. Mae'r data a ddangosir ar gyfer 2019 gan fod data ar gyfer y blynyddoedd dilynol sydd ar gael yn debygol o gael ei ystumio gan effeithiau'r pandemig.

Siart 33: Cyfran treth y GDP yn ôl gwlad, 2019 (%)



Ffynhonnell: OECD

Sylwer: Nid yw Iwerddon wedi'i gynnwys oherwydd data anghynrychioladol ar gyfer GDP.

Yn ei rhagolygon ar gyfer mis Tachwedd 2023, roedd yr OBR yn rhagweld y gallai refeniw trethi fel cyfran o'r GDP godi i ychydig o dan 38 y cant o'r GDP yn 2026-27. Pe bai'r gyfran o refeniw treth mewn GDP ar gyfer gwledydd eraill yn aros yr un fath o 2019 ymlaen, byddai'r DU yn symud i sefyllfa o fan canol ymhlith gwledydd yr OECD. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol oherwydd pwysau demograffig cyffredin a phwysau costau eraill y bydd cyfran y dreth mewn GDP hefyd yn cynyddu mewn llawer o wledydd eraill.

Yn y tymor hir, mae gan dwf economaidd fwy o botensial i roi hwb mawr i refeniw na chynyddu cyfran y dreth mewn GDP. Er enghraifft, byddai'r cynnydd mewn refeniw trethi gwirioneddol, a ddaw drwy gynnydd o bum pwynt canran yng nghyfran dreth y DU, wedi cael ei gyflawni gan oddeutu pum mlynedd o dwf economaidd ar y cyfraddau twf a oedd yn nodweddiadol yn yr hirdymor cyn yr argyfwng ariannol.

Prif bwysau a risgiau cyllidol y DU

Rhagamcanion o ddyled llywodraeth y DU

Mae adroddiad diweddaraf yr OBR "Fiscal Risks and Sustainability Report",³⁹ sy'n edrych ar y risgiau, y pwysau a'r bygythiadau hirdymor i gyllid cyhoeddus y DU, yn rhagdybio na fydd unrhyw newidiadau mewn cyfraddau treth y tu hwnt i'r rheini a gyhoeddwyd eisoes ond mae'n gwneud rhagdybiaethau am gyfraddau twf economaidd hirdymor sy'n awgrymu rhywfaint o adferiad o'r cyfraddau isel iawn diweddar, er eu bod yn parhau i fod yn is na'r rhai a welwyd cyn yr argyfwng ariannol yn 2007-8.

Ar y sail hon, mae'r OBR o'r farn nad yw sefyllfa ariannol bresennol y DU yn gynaliadwy dros y tymor hwy.

Er bod y dadansoddiad a wnaed gan yr OBR yn ymwneud â chyd-destun ariannol y DU ac felly'n *anuniongyrchol* berthnasol i Gymru drwy'r goblygiadau i wariant cyhoeddus y DU, mae llawer o'r dadansoddiad yn ymwneud â phwysau a risgiau a fydd yn effeithio'n *uniongyrchol* ar Lywodraeth Cymru.


Mae lefelau dyled y llywodraeth wedi codi deirgwaith ers dechrau'r ganrif hon ac, ar oddeutu 100 y cant o'r GDP, maent ar eu lefel uchaf ers dros 60 mlynedd (gweler siart 34).⁴⁰

Mae'r cynnydd dramatig hwn mewn dyled gyhoeddus yn rhannol oherwydd y gyfres o argyfyngau y mae'r DU (ac economïau datblygedig eraill) wedi'u hwynebu hyd yma yn y ganrif hon. Yn ogystal, dim ond yn rhannol effeithiol y mae'r ymdrechion i leihau dyled rhwng argyfyngau wedi bod.

³⁹ [Fiscal risks and sustainability – Gorffennaf 2023 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol \(obr.uk\)](#)

⁴⁰ Mae'r data a ddefnyddir yn Siartiau 33 a 34 yn deillio o amcanestyniadau tymor hir a wnaed cyn rhagolygon tymor canolog newydd yr OBR yn eu Datganiad Rhagolygon Economaidd a Chyllidol diweddaraf. Mae'r darlun cyffredinol a gyflwynir yn y siartiau yn dal yn berthnasol.

Siart 34: Cymhareb dyled y DU i GDP ers 1900 (%)



Ffynhonnell: OBR


Sylwer: Mae'r siart yn dangos y ddyled sylfaenol heb gynnwys Banc Lloegr

Mae cynnydd mewn cyfraddau llog a chwyddiant uwch hefyd wedi bod yn ffactorau sy'n sbarduno twf mewn dyled yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r DU yn arbennig o agored i'r ffactorau hyn oherwydd bod gan ddyled llywodraeth y DU aeddfedrwydd cymharol fyr ac mae cyfran uchel o'r ddyled ar ffurf bondiau llywodraeth sy'n gysylltiedig â mynegai. Yn ogystal, mae mwy o ddyled y DU yn nwylo buddsoddwyr tramor na'r hyn a welir yn y rhan fwyaf o wledydd eraill y G7. Mae hyn yn gwneud y DU yn agored i newidiadau mewn teimladau a cholli hyder yn apêl asedau'r DU.

Yn gyffredinol, yn bennaf o ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae cyllid cyhoeddus y DU wedi dirywio o'i gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill.

Wrth edrych dros y 50 mlynedd nesaf, mae amcanestyniadau cyllidol hirdymor diweddaraf yr OBR yn dangos yr heriau wrth geisio atal dyled rhag codi drwy'r amser. Dangosir amcanestyniad gwaelodlin y ddyled hirdymor yn Siart 35.

Siart 35: Amcanestyniad dyled hirdymor y DU gan yr OBR (% o'r GDP)



Ffynhonnell: OBR

Sylwer: Mae'r siart yn dangos y ddyled sylfaenol heb gynnwys Banc Lloegr

Mae amcanestyniad gwaelodlin y ddyled hirdymor gan yr OBR, sy'n tybio na fydd unrhyw newidiadau mewn trethi ar wahân i'r rheini sydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd, yn dangos wrth i'r boblogaeth heneiddio bydd hyn yn lleihau'r trethi a dderbynnir yn raddol ac yn cynyddu'r pwysau ar wariant.⁴¹ Ar ben hynny, mae cyfraddau llog uwch a stoc dyledion sy'n cynyddu yn golygu costau uwch o ran llog dyledion. Erbyn dechrau'r 2070au, bydd dyled yn cynyddu o oddeutu 100 y cant i oddeutu 300 y cant o'r GDP.

Mae'r OBR yn asesu bod ei amcanestyniad gwaelodlin newydd, fel y dangosir yn y siart, yn debygol o danddatgan yr ystod lawn o bwysau hirdymor posibl ar gyllid cyhoeddus.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Methiant parhaus i fynegeio tollau tanwydd.
- Mesurau i leddfu'r wasgfa sydd ar y gweill ar derfynau gwariant adrannol y tu hwnt i gyfnod presennol yr adolygiad o wariant.

⁴¹I ddechrau, mae'r gymhareb dyled-i-GDP yn gostwng i 88 y cant yng nghanol y 2030au oherwydd gwarged sylfaenol cychwynnol tybiedig a gostyngiad yn nifer y disgyblion mewn addysg. Efallai fod y dybiaeth flaenorol yn optimistaidd yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu Llywodraeth y DU.

- Adborth rhwng lefel y ddyled a'r gyfradd llog a delir arni gan y llywodraeth.
- Buddsoddiadau cyhoeddus i helpu i gyrraedd sero net.
- Cynnydd posibl mewn gwariant ar amddiffyn mewn ymateb i fygythiadau cynyddol mewn diogelwch ar draws y byd.
- Ergydion posibl i gyllid cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys o dwf arafach o ganlyniad i densiynau masnach ar draws y byd.

Ar ben hynny, mae'r OBR yn tynnu sylw'n benodol at dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o bwysau posibl sy'n codi mewn dau faes: anweithgarwch sy'n gysylltiedig ag iechyd a chostau ynni.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill, mae'r DU wedi gweld cynnydd mewn anweithgarwch ar ôl y pandemig o'i gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig. Mae'r ffynhonnell fwyaf a mwyaf parhaol o'r cynnydd hwn mewn anweithgarwch wedi bod ymhlith y rhai sy'n nodi afiechyd fel eu prif reswm dros beidio â bod yn y farchnad lafur.

Mae'r cynnydd mewn anweithgarwch sy'n gysylltiedig ag iechyd ar ôl y pandemig wedi bod yn arbennig o amlwg ymysg pobl hŷn, pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl neu gyflyrau amhenodol eraill, pobl sydd â sgiliau cymharol isel, a/neu bobl sydd wedi gweithio yn y gorffennol mewn galwedigaethau a diwydiannau gwasanaeth sy'n wynebu cwsmeriaid ac sy'n talu llai.

Mae'r nifer fawr a chynyddol o bobl nad ydynt yn y gweithlu am resymau iechyd neu sy'n gweithio gyda chyflwr iechyd, yn rhoi pwysau ar gyllid cyhoeddus drwy dair sianel bosibl:

- Gwariant uwch ar les i'r rheini sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Ildio refeniw trethi gan bobl sydd naill ai ddim yn gweithio neu'n gweithio llai o oriau ac sy'n ennill llai.
- Gwariant uwch ar ofal iechyd, sy'n adlewyrchu'r berthynas ddwy ffordd rhwng hyd anweithgarwch economaidd a dirywiad mewn iechyd.

Wrth gwrs, bydd y goblygiadau i gyllid cyhoeddus y DU yn dibynnu ar a fydd y duedd i fwy a mwy o anweithgarwch yn parhau, yn cynyddu, neu'n gwrthdroi. Os bydd y duedd yn parhau, bydd llawer o'r pwysau costau hefyd, wrth gwrs, yn effeithio'n uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Er gwaethaf cynnydd cymharol gyflym mewn datgarboneiddio dros y 30 mlynedd diwethaf, mae'r DU yn parhau i fod yn un o'r economïau sy'n dibynnu fwyaf ar nwy yn Ewrop. Mae mewnfornion net wedi codi ers 2000 ac yn cyfrif am oddeutu hanner y nwy sy'n cael ei ddefnyddio yn y DU ar hyn o bryd.

Yn dilyn yr ymosodiad ar Wcráin, roedd prisiau nwy uwch yn lleihau'r galw am ynni ond hefyd incwm aelwydydd (er gwaethaf mesurau cymorth y llywodraeth). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyffredinol yn arddwysedd ynni economi'r DU ers yr argyfwng ynni diwethaf yn y 1970au, yn golygu bod cynnydd mwy mewn prisiau ynni cyfartalog dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cael effaith fwy cymedrol ar allbwn a defnydd.

Yn ôl yr OBR, gallai dibyniaeth barhaus ar nwy ar y lefel bresennol, mewn senario niweidiol gydag argyfyngau dro ar ôl tro sy'n achosi cynnydd mewn prisiau nwy, tebyg i'r hyn a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf, fod mor ddrud yn ariannol â chwblhau'r newid i gyrraedd sero net.

Mae'r senario penodol hwn yn achos eithafol, gan ei bod yn ymddangos yn annhebygol y bydd argyfyngau o'r maint a awgrymir yn digwydd dro ar ôl tro, yn enwedig wrth ystyried y cymhellion sydd eisoes ar waith a fydd yn lleihau rôl nwy yn raddol yng nghymysgedd ynni'r DU. Fodd bynnag, mae cynnydd llai eithafol mewn prisiau ynni yn ganlyniad mwy tebygol o lawer, ac eto'n un a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Rhagolygon cyllidol tymor hwy Cymru

Senarios cyllidol tymor hwy i Gymru

Mae'r amcanestyniadau tymor hwy yn Siart 32 yn defnyddio'r rhagolwg tymor canolig a ddangosir yn Siart 26 fel man cychwyn. Yna, ystyrir tri senario ar gyfer y cyfnod o 2027-28 i 2032-33.

Senario un: Amcanestyniadau gwariant "seiliedig ar alw" yr OBR

- Yn seiliedig ar amcanestyniadau gwaelodlin yr OBR ar gyfer gwariant di-log, di-fudd perthnasol o adroddiad Risgiau a Chynaliadwyedd Cyllidol 2023. Mae gwariant Llywodraeth y DU sy'n berthnasol i gyllid grant bloc yn tyfu'n gyflymach na'r GDP yn ystod cyfnod yr amcanestyniad. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau uwch o ganlyniad i ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yng nghostau real darparu iechyd a gofal. Fel y dangosir yn siart 35, yn y pen draw mae'r senario hwn yn arwain at gynnydd cyflym yn nyled net y sector cyhoeddus.


Senario dau: Twf 0.5 y cant yn is na'r GDP am 5 mlynedd, wedyn GDP

- Mae gwariant Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid grant bloc Llywodraeth Cymru yn cynyddu ychydig yn arafach nag economi'r DU tan flynyddoedd cyntaf y 2030au, wedyn ar yr un gyfradd â'r economi. Mae'r senario hwn yn adlewyrchu sefyllfa lle bydd Llywodraeth y DU am gadw lefel dyled y sector cyhoeddus fel cyfran o GDP y tu hwnt i gyfnod y rhagolwg tymor canolig o bosibl, wedi'i ddilyn gan gyfnod o sefydlogrwydd.

Senario tri: Twf un pwynt canran yn llai na GDP

- Gwariant perthnasol Llywodraeth y DU yn cynyddu un pwynt canran yn arafach nag economi'r DU. Mae hyn yn adlewyrchu senario lle mae galw am leihau dyled yn gyflymach neu mae elfennau eraill o wariant y DU – fel pensiynau neu log ar ddyledion – yn cynyddu'n gyflymach.

Siart 36: Amcanestyniadau Hirdymor ar gyfer Gwariant Llywodraeth Cymru o Ddydd i Ddydd (cyllideb adnoddau heb gynnwys COVID-19) mewn termau real, o dan dri senario (£m, prisiau 2022-23)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Yn y senario seiliedig ar alw, mae cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn cynyddu'n gyflymach dros gyfnod estynedig nag ar unrhyw adeg ers y 2000au. Y senario hwn sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol ond, ac ystyried casgliad yr OBR y bydd hyn yn arwain at dwf esbonyddol yn nyled net y sector cyhoeddus heb godi trethi, efallai nad hwn fydd y mwyaf tebygol.

Mae'r senario canol yn awgrymu y bydd y gyllideb adnoddau yn tyfu ychydig yn gyflymach dros y pum mlynedd nesaf, ac yn y senario isaf mae twf ychydig yn arafach dros y tymor hwy. Mae'r ddau senario yn awgrymu y bydd gwariant y pen yn tyfu ymhell o dan hanner y gyfradd gyfartalog ers dechrau datganoli.

Cynaliadwyedd cyllidol

Fel y dangosir yn y senarios uchod, mae'r rhagolygon ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cael eu llywio gan benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch gwario ar wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. Mae'r penderfyniadau hyn yn pennu newidiadau i grant bloc Cymru drwy fformiwla Barnett. Hyd yn oed ar ôl datganoli trethi, bydd tua 79 y cant o arian Llywodraeth Cymru yn dod drwy'r grant bloc (siart 37).

Siart 37: Ariannu Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Bydd cynaliadwyedd cyllideb Llywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr. Os caiff y gwasanaethau cyfatebol yn Lloegr eu hariannu'n ddigonol, yna bydd digonolrwydd cyllid yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar a yw'r galw am y gwasanaethau hynny'n tyfu ar gyfradd wahanol i'r galw yn Lloegr. Bydd perfformiad cymharol y trethi datganoledig yn cael effaith hefyd.

Mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddol o bobl hŷn fod yn un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl hŷn na Lloegr – sef rhan o'r rheswm bod yr angen iddi wario ar wasanaethau cyhoeddus yn gymharol uwch – ond y twf yn y boblogaeth honno a fydd yn sbarduno newidiadau yn y galw. Mae Siart 38 yn dangos y rhagolwg o'r twf yn y boblogaeth sydd â disgwyliad oes o lai na 10 mlynedd neu lai yn weddill – grŵp sy'n debygol o greu rhywfaint o'r galw mwyaf am wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Mae disgwyl i'r boblogaeth hon dyfu'n gyflym ond ar tua'r un gyfradd yng Nghymru ac yn Lloegr tan ddiwedd y 2020au, a bydd twf ychydig yn gyflymach yn Lloegr wedi hynny.

Siart 38: Rhagolwg o'r boblogaeth â disgwyliad oes o 10 mlynedd neu lai yn weddill (2020=100)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru ar sail rhagolygon yr SYG o boblogaeth ar sail 2020

Os caiff anghenion gwasanaeth cyhoeddus y grŵp hwn yn Lloegr eu diwallu'n briodol dros y tymor canolig i'r hirdymor, mae siawns resymol y bydd gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau angenrheidiol i ateb y galw o dan drefniadau'r fframweithiau cyllidol cyfredol hefyd. Bydd gwasgfa fformiwla Barnett yn golygu y bydd cynnydd ychydig yn is mewn gwariant yng Nghymru na Lloegr, gan gymryd bod popeth arall yn gyfartal, ond mae mecanwaith yng Nghytundeb Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar yr effaith honno dros y tymor canolig i'r hirdymor. Wrth gwrs, mae dimensiynau eraill ar y galw am wasanaethau cyhoeddus y byddai angen eu hystyried mewn asesiad mwy cynhwysfawr o gynaliadwyedd.

Yn amlwg, mae'r cwestiwn a fydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid digonol yn Lloegr yn peri risg fawr. Mae'r cynlluniau cyfyngedig iawn ar gyfer gwariant ar gyfer y pum mlynedd nesaf sy'n sail i ragolwg cyllidol diweddaraf yr OBR, yn awgrymu bod y rhagolygon yn llwm yn y tymor byr i ganolig o leiaf. Fel y nodwyd uchod, y senario sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r cyllid angenrheidiol yn y tymor hwy yw'r un sydd hefyd yn anghynaliadwy wrth ystyried y lefelau trethiant presennol, yn ôl yr OBR. Ar ben hyn, mae'n werth nodi'r pwysau cronol ar wasanaethau cyhoeddus ar draws y DU o ganlyniad i gyllid sy'n llai na'r galw dros tua'r degawd diwethaf.

Wrth gwrs, gall Llywodraeth Cymru newid maint ei hamlen gyllidebol drwy ddefnyddio ysgogiadau trethiant datganoledig hefyd. Mae'r ysgogiadau hyn yn darparu hyblygrwydd gwerthfawr ac fe'u trafodir yn fanylach yn yr adran ganlynol. Fodd bynnag, gallai eu defnyddio i gynhyrchu newidiadau mawr iawn mewn

adnoddau mewn perthynas â'r cyllid grant bloc effeithio ar y sylfaen drethu yng Nghymru mewn ffordd a fyddai'n codi rhagor o gwestiynau ynghylch cynaliadwyedd.


Ystyriaethau cyllidol eraill Cymru

Refeniw trethi Cymru

Roedd Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yr OBR ym mis Tachwedd yn cynnwys rhagolygon newydd ar gyfer y trethi datganoledig ac ar gyfer trethi'r DU sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc. Mae rhagolwg refeniw wedi'i ddiweddarau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a rhagor o fanylion am y rhagolygon eraill, wedi'u cynnwys yn Rhagolygon yr OBR ar gyfer Trethi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos twf cryf mewn refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru (siart 39). Dros y blynyddoedd alldro rhwng 2019-20 a 2021-22, cynyddodd refeniw CTIC 8% y flwyddyn ar gyfartaledd, a rhagwelir y byddant yn parhau i dyfu ar gyfradd debyg dros y blynyddoedd nesaf. Disgwylir i refeniw treth trafodiadau tir fod yn gymharol isel yn 2023-24 a 2024-25, gan adlewyrchu marchnad eiddo tawel, ac yna adfer dros flynyddoedd diweddarach y rhagolwg.

Siart 39: Rhagolygon trethi datganoledig (£ miliwn)



Ffynhonnell: CTheF, ACC a'r OBR

Mae rhagolygon yr OBR ar gyfer trethi cyfatebol y DU hefyd yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru drwy'r addasiadau i'r grant bloc.


Dangosir y sefyllfa net rhwng y trethi datganoledig a'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc yn Siart 40. Mae disgwyl i'r trethi datganoledig barhau i wneud cyfraniadau

cadarnhaol i gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu dewisiadau polisi, er enghraifft mae gan dreth trafodiadau tir gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol na threth dir y dreth stamp gan Lywodraeth y DU. Yn ogystal, mae rhewi'r lwfans personol treth incwm yn cael mwy o effaith gyfrannol ar refeniw yng Nghymru nag mewn mannau eraill.

Rhagwelir y bydd y sefyllfa net yn gwella'n sylweddol rhwng 2023-24 a 2024-25, o tua £150m i bron i £300m. Mae'r sefyllfa net wedyn yn gostwng tua £100m yn 2025-26 cyn adfer i tua £300m yn y dyfodol.

Mae'r gwelliant yn y gyllideb yn 2024-25 yn cael ei sbarduno'n rhannol gan addasiadau cysoni cadarnhaol sy'n ymwneud ag alldro 2021-22. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd â Thrysorlys EF gyda manylion yr addasiadau hyn [yma](#) ar 7 Rhagfyr 2023. Mae addasiad grant bloc CTIC a rhagolwg refeniw CTIC ar gyfer 2024-25 nawr yn sefydlog at ddibenion cyllidebol. Mae'r gostyngiad yn y sefyllfa net yn 2025-26 yn adlewyrchu'r ffaith nad oes disgwyl i'r addasiadau cadarnhaol mwy o 2021-22 gael eu hailadrodd yn 2022-23. (Bydd yr alldro ar gyfer 2022-23 yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2024.)

Siart 40: Y sefyllfa net rhwng rhagolygon trethi datganoledig ac addasiadau i'r grant bloc (£ miliwn)



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru a'r OBR


Balans cyllidol

Mae Siart 41 yn dangos y balans cyllidol ar gyfer Cymru a gwledydd eraill y DU a rhanbarthau Lloegr yn 2021-22. Mae balans negatif yn dynodi bod y gwariant yn fwy na'r refeniw. Bydd pandemig COVID-19 a'r ymateb iddo wedi effeithio ar y ffigurau hyn. Mae pob gwlad a'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr wedi cofnodi balans cyllidol negatif. Mae'r patrwm cymharol rhwng gwahanol ardaloedd wedi aros yn eithaf tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gwariant cyhoeddus y pen yn is yng Nghymru nag yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond yn uwch nag yn Lloegr a'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr. Yn gyffredinol, mae lefel y gwariant mewn gwahanol ardaloedd yn adlewyrchu'r strwythurau oedran cymharol a dangosyddion angen eraill. Mae gwariant y pen yn uwch yn yr Alban ac yn Llundain am resymau eraill.

Mae refeniw y pen yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU ac yn debyg i Ogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gwendid sylfaenol y sylfaen drethu yng Nghymru eto'n adlewyrchu ffactorau demograffig, ond hefyd y nifer gymharol isel o bobl sy'n ennill incwm uchel yng Nghymru, sydd ill dau'n cael eu hadlewyrchu ym mherfformiad cymharol Cymru o ran GDP.

Siart 41: Balans cyllidol y pen (£), 2021-22



Ffynhonnell: SYG

Nodiadau: Refeniw o fewn a nwy Môr y Gogledd a ddyrennir ar sail daearyddiaeth

Mae'r bwlch mwy rhwng refeniw a gwariant yng Nghymru, o'i gymharu â chyfartaledd y DU, yn dangos bod llawer iawn yn cael ei drosglwyddo i breswylwyr Cymru drwy system gyllidol y DU, a'r trosglwyddiad hwn yw'r prif reswm dros y bwlch a ddangosir rhwng mesurau incwm aelwydydd a GDP yng Nghymru, fel y trafodir uchod. Mae'r ddibyniaeth hon ar drosglwyddiadau cyllidol yn amlwg yn risg allweddol i safonau byw Cymru.

Fel y nodwyd uchod, mae newid demograffig yn ychwanegu at y risgiau economaidd a chyllidol tymor hwy sy'n wynebu Cymru.

O dan y trefniadau cyllidol presennol, mae gan Gymru amddiffyniad sylweddol, ond anghyflawn, rhag symudiadau yn y boblogaeth sydd, yn ôl pob golwg, yn niweidiol – yn wir, mewn rhai amgylchiadau, gallai symudiadau o'r fath gael effeithiau manteisiol yn y tymor byrrach (gan fod y grant bloc yn cynnwys sylfaen fawr a fyddai'n cael ei throsglwyddo a'i "rhannu" ar draws poblogaeth a fyddai'n llai nag y byddai fel arall).

Fodd bynnag, o dan drefniadau cyllidol a allai fod yn wahanol yn y dyfodol, gallai gwendid yn y sylfaen drethu sy'n deillio o newid demograffig, fod yn fwy o faich o lawer.


Er bod llawer o'r ffactorau sy'n pennu lefelau poblogaeth yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ffactorau sy'n anodd dylanwadu arnynt, mae'r potensial cynyddol ar gyfer gweithgarwch economaidd o bell, gan gynnwys gweithio o bell, ynghyd â'r lefel uchel o amwynder yng Nghymru, yn rhoi cyfle i bolisiau fynd i'r afael â dirywiad cymharol y boblogaeth yng Nghymru. Gallai mesurau sy'n gwneud Cymru'n fwy deniadol fel lleoliad helpu i gadw a denu pobl, gan gynnwys pobl sy'n dychwelyd i'r ardal.

Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o effeithiau dosbarthiadol gwariant datganoledig ar boblogaeth Cymru ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft 2024. Yn gyson ag iteriadau blaenorol o'r dadansoddiad ar gyfer cyllidebau blaenorol, mae Siart 42 yn dangos bod gwariant datganoledig yn gyffredinol raddol ar draws cwintelau incwm aelwydydd.

Fodd bynnag, nid yw'r dosbarthiad yn gyson raddol. Mae effaith rhai o'r meysydd polisi mwy cyffredinol yn dibynnu ar le mae defnyddwyr wedi'u crynhoi yn y dosbarthiad incwm. Er enghraifft, lle mae plant wedi'u crynhoi a sut mae hynny'n effeithio ar wariant ysgolion ar draws cwintelau.

Siart 42: Effaith ddosbarthiadol y Gyllideb Ddrafft 2024-25



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio UKMOD

Sylwer: Mae'r polisi a fodelwyd yn cyfrif am 70% o gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.